Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
19/2025
Dyddiad cyhoeddi:
27/02/2025

# Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf: dadansoddiad o sut mae'r rhaglen yn alinio â pholisïau

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83625-331-0

Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf: dadansoddiad o sut mae’r rhaglen yn alinio â pholisïau

Awdur: Rosie Moore

Adroddiad Ymchwil Llawn: Moore, Rosie. (2025). *Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf: dadansoddiad o sut mae’r rhaglen yn alinio â pholisïau*. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 19/2025.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/rhaglen-gwella-gwyliaur-haf

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Is-adran: Y Gangen Ymchwil Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 8099
E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

# Cynnwys


Rhestr o dablau .......... 2
Geirfa .......... 3
1. Cyflwyniad .......... 4
2. Methodoleg .......... 10
3. Canfyddiadau: Alinio Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae .......... 14
4. Canfyddiadau: Gorgyffwrdd rhwng darpariaeth gwyliau ysgol .......... 32
5. Canfyddiadau: Cyfleoedd i leihau unrhyw ddyblygu ar gyfer Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf .......... 37
6. Canfyddiadau: Meysydd polisi eraill a allai effeithio ar y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf .......... 44
7. Casgliadau .......... 49
8. Argymhellion .......... 52
9. Cyfeiriadau .......... 53
10. Atodiadau .......... 55

## Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Nodau'r Rhaglen ........................................................................................ 18
Tabl 3.2 Meini Prawf Gweithredu Craidd y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf o gymharu â'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae ........................................................................ 23

## Geirfa

**SHEP**
Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

**CLILC**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**CPCC**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**RTA**
Dadansoddiad thematig atgyrchol

**ADY**
Anghenion Dysgu Ychwanegol

**eFSM**
Yn gymwys am brydau ysgol am ddim

**SCC**
Swyddog Cymorth Cynorthwyol

**PSA**
Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

**UCD**
Uned Cyfeirio Disgyblion

**UPFSM**
Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

**CCG**
Y Grant Plant a Chymunedau

**AGC**
Arolygiaeth Gofal Cymru

# 1. Cyflwyniad

## Nodau ac amcanion

1.1 Nod y dadansoddiad hwn yw archwilio sut mae Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) yn alinio â rhaglenni gwyliau'r haf a ariennir gan Lywodraeth Cymru perthnasol a pholisïau perthnasol Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, a sut gallai alinio yn y dyfodol, a nodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o gydweithio ar draws rhaglenni. Bwriad y dadansoddiad hwn yw llywio cyfeiriad polisi ar gyfer SHEP.

1.2 Mae gan y dadansoddiad hwn bedwar amcan:

- **Amcan 1:** Archwilio i ba raddau mae SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae (Gwaith Chwarae) yn alinio.
- **Amcan 2:** Nodi unrhyw feysydd o orgyffwrdd neu ddyblygu rhwng darpariaeth gwyliau'r ysgol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol.
- **Amcan 3:** Nodi cyfleoedd i leihau dyblygu darpariaeth gwyliau'r ysgol ar lefel leol.
- **Amcan 4:** Archwilio sut y gallai darpariaeth SHEP alinio â meysydd polisi eraill yng Nghymru neu gael ei heffeithio ganddynt, (e.e., diwygio'r flwyddyn ysgol a rhoi terfyn ar y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau yn ddiweddar).

## Cefndir a chyd-destun polisi: Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

1.3 Mae SHEP yn gynllun ysgol sy'n darparu prydau iach, addysg bwyd a maetheg, gweithgareddau corfforol a sesiynau cyfoethogi i ddysgwyr 4-15 oed mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol. Nod SHEP yn bennaf yw gostwng y graddau y mae plant mewn ardaloedd o amddifadedd yn colli dysgu dros wyliau'r haf, a allai gyfrannu at ehangu'r bwlch cyrhaeddiad. Hefyd, mae'n helpu teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd fforddio neu gael gafael ar fwyd sy'n darparu deiet iach yn ystod gwyliau'r ysgol.

1.4 Mae'r ddarpariaeth yn defnyddio adeiladau ysgol ac mae'r prydau bwyd yn cael eu darparu gan staff y ffreutur. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chyfyngu felly i ysgolion sydd â chyfleusterau ffreutur. Fel arfer, darperir y ddarpariaeth dros gyfnod o dair neu bedair wythnos (cyfanswm o 12 diwrnod o leiaf) i garfannau o 40 o blant fesul uned yn ystod gwyliau'r haf. Mae SHEP yn cael ei darparu ar sail diwrnod llawn neu sesiwn.

1.5 Rheolir SHEP gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), sy'n goruchwylio ac yn rheoli 22 Arweinydd Cyngor sy'n gyfrifol am gydlynu rhaglen SHEP yn eu hawdurdod lleol. Cafodd SHEP ei threialu gyntaf fel cynllun yn 2015, pan gafodd ei chyflwyno yng Nghaerdydd gan Bartneriaeth Bwyd Caerdydd. Bryd hynny, Bwyd a Hwyl oedd yr enghraifft gyntaf yn y DU o brosiect amlasiantaeth yn darparu prydau iach, addysg maetheg, chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill yn ystod gwyliau'r haf. Ehangwyd y rhaglen i bum awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod 2016 gan CLILC, ac mae wedi tyfu'n gyson ers hynny. Ers 2017, mae SHEP wedi'i darparu'n genedlaethol, wedi'i gweinyddu gan CLILC a'i hariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid cyfatebol tan 2019 ac yna'r cyllid llawn o 2020.

1.6 Mae'r ddarpariaeth yn dal i gael ei hadnabod yn fewnol yn Llywodraeth Cymru fel SHEP ond mae'n cael ei hyrwyddo'n allanol o dan y brand 'Bwyd a Hwyl'. Yn yr adroddiad hwn, dim ond y term SHEP fydd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r fenter, ond mae 'Bwyd a Hwyl' yn ymddangos yn sylwadau'r rhai a gafodd eu cyfweld ar adegau.

1.7 Yn ystod cyfnod gwyliau haf ysgolion 2023, darparwyd tua 278 o garfannau ar draws 175 o gynlluniau a oedd yn cael eu cynnal ledled Cymru, gan greu 11,110 o leoedd i ddysgwyr bob dydd y cynhaliwyd cynlluniau (i fyny o bron i 8,000 o leoedd yn 2022-23). Wrth ddarparu SHEP yn 2023, roedd tua 44% o'r plant a fynychodd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.[1]

1.8 Dyrannodd Llywodraeth Cymru £4.85 miliwn i SHEP yn 2023-24, gydag ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i gefnogi a thyfu'r rhaglen.

[1] Data o Adroddiad CLILC (2024) Adroddiad Gwerthuso Bwyd a Hwyl 2023

1.9 Cafodd model rhesymeg o weithgareddau craidd SHEP a'r canlyniadau a fwriadwyd ei gysyniadu'n wreiddiol gan y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) yn 2016-17. Yn 2019, comisiynodd CLILC Data Cymru i ddatblygu'r model rhesymeg ymhellach.[2]

1.10 Nododd y model rhesymeg diwygiedig a ddatblygwyd bum canlyniad eang ar gyfer SHEP:

- iechyd meddwl a lles emosiynol gwell,
- ymgysylltiad ysgol a chyrhaeddiad addysgol,
- dyheadau gwell,
- gweithgarwch corfforol gwell,
- ymddygiad deietegol gwell.

1.11 Yn ystod cyfnod cwmpasu'r gwaith ymchwil cyfredol hwn, nodwyd bod sawl rhaglen gwyliau ysgol a maes polisi yn berthnasol i SHEP. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod.

## Cefndir a chyd-destun polisi: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae

1.12 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Gwaith Chwarae, sef menter llwgu yn ystod gwyliau ysgol sy'n ceisio cefnogi mynediad at fwy o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol a darparu bwyd / byrbrydau iach. Mae Gwaith Chwarae ar gyfer plant rhwng 0 a 17 oed (wedi'i ymestyn i 25 oed ar gyfer pobl ifanc anabl) a gellir ei ddarparu yn ystod pob cyfnod gwyliau.

1.13 Rheolir cyllid Gwaith Chwarae gan awdurdodau lleol sy'n darparu'r ddarpariaeth eu hunain neu drwy ddarparwyr trydydd sector. Y bwriad oedd y byddai cyllid Gwaith Chwarae yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio cynlluniau gwaith chwarae yn y gymuned i gynnig darpariaeth i fwy o blant nag y byddent wedi gallu ei wneud fel arall.

1.14 Prif nodau Gwaith Chwarae yw darparu gwell cyfleoedd chwarae, sydd ar gael am ddim yn y pwynt mynediad neu am dâl bach, a phrofiadau cadarnhaol sy'n cynnwys

[2] CLILC (2020) Gwerthuso'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) 2019

cymdeithasu, bod yn egnïol, cael hwyl, a dysgu rhywbeth newydd. Mae'r prosiect yn darparu manteision ychwanegol hefyd drwy gefnogi cynaliadwyedd lleoliadau Gwaith Chwarae a chefnogi rhieni, teuluoedd a chymunedau. Yn ogystal, nod y rhaglen yw gwella canlyniadau i blant mewn perthynas â llwgu yn ystod y gwyliau trwy ddarparu bwyd a byrbrydau i annog bwyta'n iachach a lleihau'r pwysau ariannol ar rieni a gofalwyr. Y bwriad yw bod y rhaglen yn gwella canlyniadau sy'n gysylltiedig â llwgu yn ystod y gwyliau trwy ategu SHEP. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid ar gyfer Gwaith Chwarae yn canolbwyntio ar ardaloedd o angen ac amddifadedd.

## Adferiad o bandemig y coronafeirws (Covid-19)

1.15 Yn 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru y cynllun Haf o Hwyl gwerth £5 miliwn a oedd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol am ddim i blant a phobl ifanc 0-25 oed yng Nghymru. Nod y gweithgareddau oedd cefnogi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol pobl ifanc fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r adferiad o bandemig y coronafeirws (Covid-19)[3]. Cynhaliwyd yr Haf o Hwyl eto y flwyddyn ganlynol yn 2022, gyda dyraniad cyllideb o £7 miliwn[4].

1.16 Gan adeiladu ar lwyddiant yr Haf o Hwyl, lansiodd Llywodraeth Cymru Gaeaf Llawn Lles rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022 fel rhan o becyn gwerth £20 miliwn i gefnogi plant a theuluoedd i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl fel rhan o'r adferiad ar ôl pandemig Covid-19[5]. Fel rhan o hyn, darparwyd hyd at £2 miliwn ar gyfer Treialu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol i gyflwyno gweithgareddau a phrofiadau i gefnogi dysgu, datblygiad sgiliau, a lles corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc ar draws lleoliadau dysgu a wirfoddolodd yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22[6].

1.17 Mae'r gwerthusiad o Gaeaf Llawn Lles yn nodi bod y rhaglen wedi cael croeso cynnes gan ddarparwyr ac yn fuddiol i blant a theuluoedd. Fodd bynnag, canlyniad

[3] Llywodraeth Cymru (2021) Gwerthusiad o'r Haf o Hwyl, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.
[4] Llywodraeth Cymru (2022) Datganiad Ysgrifenedig: £7m Haf o Hwyl 2022
[5] Llywodraeth Cymru (2022) Gwerthusiad o Gaeaf Llawn Lles Caerdydd, Llywodraeth Cymru.
[6] Llywodraeth Cymru (2023) Gwerthuso Treialu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

anfwriadol rhaglen Gaeaf Llawn Lles oedd ei bod wedi codi disgwyliadau ymhlith plant a theuluoedd y byddai darpariaeth am ddim yn cael ei chynnig yn y tymor hir.

1.18 Mae’r rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles wedi dod i ben erbyn hyn, sy'n golygu mai'r ffrwd ariannu Gwaith Chwarae yw'r unig ffrwd ariannu sy'n ymroddedig i ddarparu darpariaeth chwarae mynediad agored am ddim.

## Darparu prydau ysgol am ddim

1.19 Ym mis Ebrill 2020, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i sicrhau prydau ysgol am ddim i deuluoedd cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol, gyda phrydau bwyd yn cael eu darparu yn ystod gwyliau'r ysgol, gyda chymorth buddsoddiad o £100 miliwn a mwy. Awdurdodau lleol unigol oedd yn penderfynu sut i weinyddu'r ddarpariaeth prydau bwyd am ddim, naill ai drwy greu prydau cinio neu drwy ddarparu talebau neu daliadau uniongyrchol i deuluoedd. Fodd bynnag, daeth y ddarpariaeth hon i ben ym mis Chwefror 2023.

1.20 Ar ben hynny, ar 17 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai hawl i brydau ysgol am ddim yn cael ei ymestyn i bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru erbyn mis Medi 2024. Cyflwynwyd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgol gynradd (UPFSM) fesul cam gan ddechrau yn nhymor yr hydref (Medi) 2022 gyda phlant dosbarth derbyn yn cael y prydau am ddim cyntaf. Erbyn mis Medi 2023, ehangodd y cynnig i gynnwys y rhan fwyaf o ddysgwyr o'r dosbarth derbyn hyd at flynyddoedd tri a phedwar, gan gyrraedd blynyddoedd pump a chwech erbyn Ebrill 2024. Pan oedd awdurdodau lleol yn gallu cyrraedd y grwpiau blwyddyn hyn cyn y cerrig milltir hyn, maent wedi cael eu hariannu i wneud hynny.

## Diwygio'r flwyddyn ysgol

1.21 Roedd ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2023) yn archwilio canfyddiad a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol. Yn ôl yr ymchwil, ym marn ymarferwyr, rhieni a dysgwyr, mae'r gwyliau o 6 wythnos yn achosi colled dysgu i bob dysgwr. Ychydig iawn o effaith barhaol sydd i'r golled hon, gyda'r adferiad yn digwydd yn fuan ar ôl cychwyn tymor yr hydref. Roedd staff a rhieni yn pwysleisio mai ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mae'r calendr ysgol presennol yn effeithio fwyaf. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y gallai

newidiadau i'r flwyddyn ysgol wella lefelau lles a blinder ymhlith dysgwyr a staff a chefnogi cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr.[7]

1.22 Lansiwyd yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol i ystyried strwythur presennol y flwyddyn ysgol ochr yn ochr â strwythurau amgen er mwyn sicrhau darpariaeth blwyddyn ysgol a all helpu orau i liniaru effeithiau anfantais, lleihau anghydraddoldebau addysgol, cefnogi lles dysgwyr a staff ac alinio â phatrymau cyfoes bywyd teuluol a chyflogaeth.

1.23 Cafwyd 16,000 a mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn gofyn am farn ar newid calendr yr ysgol i wasgaru'r gwyliau ysgol yn fwy cyfartal drwy gydol y flwyddyn. Roedd y cynigion yn awgrymu symud wythnos o ddechrau gwyliau'r haf i wyliau'r hydref gan greu pythefnos o hanner tymor er mwyn gwella profiadau addysg pobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf dan anfantais ac alinio yn fwy effeithiol â'r ffordd y mae teuluoedd yn byw ac yn gweithio. Er bod mwyafrif cyfyng o'r ymatebion o blaid newid gwyliau ysgol, roedd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn amwys ac yn anghyson. Yn dilyn yr ymateb cymysg hwn o'r ymgynghoriad Diwygio'r Flwyddyn Ysgol (2024)[8], cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg na fyddai unrhyw benderfyniad i newid calendr yr ysgol yn digwydd yn nhymor y Senedd a oedd fod i ddod i ben yn 2026, ond y byddai'n fater i'r Senedd nesaf.

---

[7] Llywodraeth Cymru (2023) Diwygio'r flwyddyn ysgol: canfyddiad a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

[8] Llywodraeth Cymru (2024) Crynodeb o'r ymateb: Strwythur y flwyddyn ysgol, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

# 2. Methodoleg

2.1 Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil, roedd y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys cyfnod cwmpasu, ac yna cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.

2.2 Roedd cyfnod cwmpasu'r ymchwil yn cynnwys y tasgau canlynol:

- Sefydlu nodau, amcanion a chwmpas y dadansoddiad yn dilyn trafodaethau gydag arweinwyr polisi ar gyfer SHEP.
- Cyfweliadau cwmpasu cychwynnol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol, gan gynnwys swyddogion o CLILC ac arweinwyr SHEP o awdurdodau lleol.
- Adolygiad o lenyddiaeth werthuso a pholisi allweddol.

## Cyfweliadau â rhanddeiliaid mewnol ac allanol

2.3 Cynhaliwyd pymtheg cyfweliad lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid. Cynhaliwyd wyth cyfweliad gyda deg o randdeiliad allanol a oedd yn swyddogion o CLILC neu'n staff o awdurdodau lleol sy'n darparu SHEP neu Brosiect Gwyliau Gwaith Chwarae. Cynhaliwyd saith cyfweliad gydag wyth swyddog o Lywodraeth Cymru sy'n arwain ar bolisi neu ymchwil ar gyfer SHEP neu un o'r rhaglenni gwyliau ysgol neu feysydd polisi a nodwyd yn y cyflwyniad.

2.4 Datblygwyd hysbysiad preifatrwydd ar gyfer cyfweliadau â rhanddeiliaid allanol. Nodwyd rhanddeiliaid allanol gan ddefnyddio cyfuniad o samplu bwriadus a chyfleus.

2.5 Er mwyn recriwtio rhanddeiliaid mewnol, cysylltwyd â swyddogion o feysydd polisi perthnasol drwy e-bost a gofynnwyd iddynt pwy yn eu tîm fyddai yn y sefyllfa orau i gymryd rhan. Yn dilyn sgwrs gwmpasu, gwahoddwyd arweinwyr polisi perthnasol i gymryd rhan mewn cyfweliad.

2.6 Er mwyn nodi a recriwtio rhanddeiliaid awdurdodau lleol o ardaloedd 'astudiaeth achos' allweddol, gofynnwyd i gydgysylltwyr pob rhaglen (CLILC, ar gyfer SHEP a swyddogion polisi o'r is-adran gofal plant a chwarae ar gyfer Gwaith Chwarae) argymell rhestr o awdurdodau lleol a fyddai â safbwynt diddorol i'w rannu ynghylch sut mae’r ddwy raglen yn alinio.

2.7 Gwahoddwyd yr holl swyddogion awdurdod lleol a argymhellwyd gan arweinwyr rhaglen i gymryd rhan mewn cyfweliad yn dilyn cyflwyniadau drwy e-bost.

2.8 Datblygwyd trefn cyfweliadau gan y tîm ymchwil a chawsant eu llywio gan sgyrsiau cwmpasu anffurfiol gyda phob rhanddeiliad cyn y cyfweliad. Er y lluniwyd trefn unigol ar gyfer pob cyfweliad, roedd pob un yn seiliedig ar set graidd o gwestiynau. Mae'r rhain ar gael yn Atodiad A.

2.9 Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau lled-strwythuredig yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Profodd hyn yn ddull effeithlon o ymgymryd â gwaith maes dros gyfnod byr o amser ac roedd yn golygu y gellid cynnwys ystod ddaearyddol ehangach o awdurdodau lleol yn yr astudiaeth.

2.10 Fe wnaeth y cyfweliadau bara rhwng 35 a 95 munud. Cafodd cyfanswm o 825 munud o ddata cyfweliad ei gofnodi a'i drawsgrifio.

2.11 Trawsgrifiwyd cyfweliadau yn gyntaf gan ddefnyddio'r swyddogaeth drawsgrifio awtomatig trwy Microsoft Teams, ac yna cawsant eu fformatio a'u gwirio gan yr ymchwilydd er mwyn cywiro unrhyw wallau.

## Cyfyngiadau: tuedd dewis

2.12 Er y siaradwyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol fel rhan o'r prosiect hwn, ni fu modd casglu barn rhai rhanddeiliaid.

2.13 Yn fewnol, ni wnaeth yr ymchwil ymwneud â swyddogion polisi o'r adran Iechyd, Iechyd Meddwl a Lles, a'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd Meddwl. Yn ogystal, er bod swyddogion yr adran Ymgysylltu ag Ieuenctid yn rhan o'r cam cwmpasu, ni allai'r cyfweliadau hyn fynd yn eu blaen oherwydd bod yr ymchwilydd yn sâl.

2.14 Yn allanol, ni fu modd siarad â phartneriaid o'r sector gofal plant y tu allan i oriau ysgol sy'n cael ei reoli gan gonsortiwm Cwlwm. Byddai unrhyw waith yn y dyfodol i ail-lunio SHEP yn cael ei gryfhau gan ymgysylltu â phartneriaid o'r sector hwn, yn enwedig Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, o ystyried y gallai'r partneriaid hyn gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau i ddarpariaeth SHEP yn y dyfodol.

## Cyfyngiadau: tuedd ardaloedd yr astudiaeth achos

2.15 Er mwyn nodi awdurdodau lleol i gymryd rhan, roedd y tîm ymchwil yn dibynnu ar gydlynwyr y rhaglen i weithredu fel ceidwaid porth. Yn ogystal, dim ond chwe awdurdod lleol yr ymgynghorwyd â nhw o blith 22 posibl. Felly, mae potensial y gallai'r ardaloedd hyn ddarparu darlun rhannol a rhagfarnllyd o sut mae SHEP a Gwaith Chwarae yn alinio ac yn cael eu cyflwyno.

## Dadansoddi a choladu tystiolaeth sydd ar gael

2.16 Dilynodd dadansoddiad o ddata cyfweliad ddull dadansoddiad thematig atgyrchol (RTA) Braun a Clarke yn fras. Defnyddir RTA fel dull o nodi, dadansoddi ac adrodd patrymau (themâu) o fewn data (Braun a Clarke, 2006) ac mae'n cynnwys chwe cham. Dyma'r camau: ymgyfarwyddo â'r data, cynhyrchu codau cychwynnol, chwilio am themâu, adolygu themâu, diffinio/enwi themâu ac ysgrifennu'r adroddiad.

2.17 Mae'r themâu a luniwyd o'r data mewn ymateb i bob amcan ymchwil wedi'u hamlinellu:

- Amcan 1: archwilio i ba raddau mae SHEP a Gwaith Chwarae yn alinio. Themâu sy'n dod i'r amlwg: nodau; gweithredu; adnoddau a phartneriaethau; rhwystrau
- Amcan 2: nodi unrhyw feysydd o orgyffwrdd neu ddyblygu rhwng darpariaethau gwyliau ysgol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Themâu sy'n dod i'r amlwg: SHEP a darpariaeth chwarae yn ystod y gwyliau; SHEP a gofal plant y tu allan i oriau ysgol; SHEP a rhaglenni cenedlaethol eraill nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru; SHEP a'r cyfoeth o ddarpariaeth leol heb ei chofrestru; symud tuag at alinio ar lefel genedlaethol
- Amcan 3: nodi cyfleoedd i gynyddu cydweithio ar ddarpariaeth gwyliau ysgol yn lleol. Themâu sy'n dod i'r amlwg: alinio ar lefel strategol; mapio/amserlennu darpariaeth; cyfathrebu amlasiantaeth effeithiol; mabwysiadu dull seiliedig ar asedau
- Amcan 4: archwilio sut y gallai darpariaeth SHEP alinio â meysydd polisi eraill yng Nghymru a chael ei heffeithio ganddynt e.e. diwygiadau i'r flwyddyn ysgol a’r penderfyniad diweddar i ddod â phrydau ysgol am ddim yn ystod y

gwyliau i ben? Themâu sy'n dod i'r amlwg: Diwygio'r Flwyddyn Ysgol; darpariaeth prydau ysgol am ddim; ysgolion bro; ymgysylltu ag Ieuenctid; tlodi plant

## 3. Canfyddiadau: alinio Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae

3.1 Archwiliwyd sut mae SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae yn alinio ar draws nodau, dulliau gweithredu, adnoddau a phartneriaethau’r ddwy raglen.

3.2 Cynhaliwyd ymarfer tebyg fel rhan o werthusiad o Gynllun Peilot Gwaith Chwarae 2019: Llwgu yn ystod y Gwyliau, lle cymharwyd nodau a chostau rhaglenni SHEP, Gwaith Chwarae a GemauStryd (Llywodraeth Cymru 2019: 34-36).[9]

3.3 Wrth archwilio'r amcan hwn gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, nodwyd sawl rhwystr i dwf, cyrhaeddiad a darparu SHEP. Felly, er nad ydynt yn rhan o'r amcanion gwreiddiol, cyflwynir y rhain hefyd fel rhan o'r adran hon.

### Nodau: Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

3.4 Datblygwyd SHEP am y tro cyntaf yn 2015 mewn ymateb i bryderon cynyddol am dlodi bwyd a cholli dysgu yn ystod yr haf ymhlith plant yng Nghymru.[10]

3.5 Mae'r gwerthusiad effaith diweddaraf o SHEP (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023) yn nodi mai nod y rhaglen yw hyrwyddo byw'n iach, cefnogi lles cadarnhaol, a gwella ymgysylltiad ag addysg a'r ysgol yn ystod gwyliau'r haf.[11]

3.6 Yn 2016, cynhyrchodd DECIPHer fodel rhesymeg ar gyfer SHEP, a ddiweddarwyd yn 2019. Mae'r pum maes canlyniad a fwriadwyd o'r model rhesymeg diweddaraf (2019) fel a ganlyn[12]:

- Iechyd meddwl a lles emosiynol gwell.
- Cyrhaeddiad addysgol ac ymgysylltiad ysgol.
- Dyheadau gwell.
- Ymddygiad deietegol gwell.
- Gweithgarwch corfforol gwell.

[9] Llywodraeth Cymru (2020) Gwerthusiad o Gynllun Peilot Gwaith Chwarae 2019: Llwgu yn ystod y Gwyliau, Caerdydd, Llywodraeth Cymru
[10] CLILC (2024) 'Bwyd a Hwyl' Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf
[11] Arad Research (2023) Gwerthusiad o Bwyd a Hwyl Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf: Adroddiad Effaith
[12] CLILC (2020) Gwerthus Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) 2019

3.7 Wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid y rhaglen ar lefel strategol a rhanbarthol, canfuwyd bod arweinwyr polisi a chydlynwyr cenedlaethol a rhanbarthol SHEP yn credu ei bod wedi cadw ei nodau gwreiddiol.

3.8 Ar ben hynny, dywedodd llawer o unigolion a gafodd eu cyfweld bod SHEP bellach yn cyflwyno buddion y tu hwnt i'r rhai a restrir yn ei model rhesymeg. Yng nghynhadledd genedlaethol SHEP, cyflwynodd CLILC y rhestr ganlynol o fuddion ychwanegol a gynigir gan y rhaglen:

- **Diogelu -** mae staff gwasanaethau cymdeithasol wedi cael sicrwydd bod plant agored i niwed mewn amgylchedd diogel ac yn cael eu bwydo am o leiaf 12 diwrnod.
- **Pryderon ariannol -** dywedodd teuluoedd fod y Bag Bwyd[13] wedi cadw'r blaidd o'r drws gan fod bwyd yn brin yn eu cartrefi.
- **Seibiant –** roedd teuluoedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfnod byr o seibiant ac roeddent yn hyderus bod eu plant gydag aelodau staff dibynadwy.
- **Presenoldeb –** nododd un ysgol gyfraddau presenoldeb gwell yn ystod tymor yr hydref ar gyfer y dysgwyr hynny a gymerodd ran yn y cynllun. Mae gweithgareddau chwaraeon wedi cynyddu yn yr ysgol a’r tu allan i oriau ysgol hefyd.
- **Perthynas ag eraill–** mae cyfnod gwyliau haf yr ysgol yn 'fwlch' pan fydd y berthynas y mae ysgolion wedi'i meithrin gyda theuluoedd yn ystod y tymor yn aml yn cael ei cholli i ryw raddau. Mae SHEP yn golygu y gellir parhau i ymgysylltu'n gyson â theuluoedd.

3.9 Amlinellodd llawer o'r rhai a holwyd sut mae'r nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd hyd yn oed yn fwy pwysig yn sgil yr argyfwng costau byw a chyfraddau cynyddol o dlodi plant, gan egluro sut mae'r rhaglen yn alinio â blaenoriaethau ac amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru:

[13] Nod y fenter Bag Bwyd yn 2023 oedd darparu bag o nwyddau pantri i fynd gartre i bob un a oedd yn bresennol yn y cynllun SHEP. Nod y fenter oedd mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

‘Mae [Bwyd a Hwyl] yn cyflawni cymaint o elfennau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. […] Gall Bwyd a Hwyl [hefyd] gyflawni yn erbyn yr holl agendâu eraill, 'Pwysau Iach, Cymru Iach', 'Dull ysgol gyfan', Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, [...] y peth arall rydyn ni’n ei gefnogi’n helaeth yw'r strategaeth tlodi plant, rwy'n teimlo bod y cynllun Bwyd a Hwyl yn rhan fawr o hynny.’

‘Mae'n ymddangos bod yr holl ddangosyddion yn awgrymu bod tlodi plant yn cynyddu, yn enwedig yng Nghymru, sydd a'r graddau gwaethaf yn y DU. Ac felly dwi'n meddwl bod 'na hyd yn oed mwy o angen [am Bwyd a Hwyl] nawr nag oedd yn 2015, llawer mwy o angen’.

3.10 Yn wir, drwy gydol y cyfweliadau, nodwyd bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac yn enwedig llwgu yn ystod y gwyliau, wedi dod yn fwy o nod blaenoriaeth y rhaglen SHEP, o ystyried yr hinsawdd bresennol:

‘Yn amlwg gyda'r newid yn y dirwedd economaidd allanol a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd yr argyfwng costau byw, [...] Mae cymaint o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd iawn gyda phroblemau bwyd a darparu gofal dros y gwyliau haf sy'n gallu bod yn gyfnod hir’

3.11 Drwy’r holl ymatebion a thrafodaethau ynghylch nodau cyfredol y rhaglen SHEP, mae'n ymddangos, er bod gan y rhaglen nodau amrywiol a niferus a llawer o fanteision i gyfranogwyr, mai dau brif nod y rhaglen yw mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau a'r dysgu a gollir dros gyfnod hir yr haf.

## Nodau: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae

3.12 Ers ei sefydlu, mae llawer o newidiadau wedi'u gwneud i nodau craidd a dulliau darparu'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae. Mae hyn yn rhannol oherwydd pandemig Covid-19, a'r cyllid adfer sydd ar gael yn dilyn hynny, gan gynnwys darparu prydau ysgol am ddim drwy gydol gwyliau'r ysgol. Mae nodau, cyfeiriad a datblygiad y prosiect wedi newid ers ei sefydlu.

3.13 Yn 2019-20, dyrannodd Llywodraeth Cymru £100,000 i gynnal y cynllun Peilot Gwaith Chwarae: Llwgu yn Ystod y Gwyliau, a oedd â'r nod o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau trwy chwarae a lleoliadau cymunedol. Mae'r gwerthusiad o'r

cynllun peilot hwn yn nodi bod y peilot wedi datblygu ‘ar lwyddiant SHEP. Er bod SHEP yn ehangu, mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, yn enwedig gan nad hwnnw yw prif sylw SHEP.’[14] Roedd y cynllun peilot yn llwyddiannus a dyrannwyd cyllid yn wreiddiol i'r fenter gael ei chyflwyno yn y flwyddyn ganlynol (2020-2021). Fodd bynnag, yn ystod yr un flwyddyn ariannol, roedd Gweinidogion wedi ymrwymo hefyd i ymestyn prydau ysgol am ddim i gynnwys pob cyfnod gwyliau ysgol am y flwyddyn.

3.14 Felly, oherwydd bod prydau ysgol am ddim ar gael yn ystod y gwyliau, cafodd cyllid Prosiect Gwaith Chwarae: Llwgu yn ystod y Gwyliau ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol a'i ddyrannu i awdurdodau lleol trwy'r Gronfa Galedi Frys i Awdurdodau Lleol er mwyn gwella gofal plant a chyfleoedd chwarae.

3.15 Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, cafodd y fenter Gwaith Chwarae ei hailadrodd. Darparwyd gwerth £1 miliwn o gyllid i gynyddu'r ddarpariaeth gwaith chwarae yn ystod y gwyliau mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol ar gael o hyd, gallai awdurdodau lleol ddarparu bwyd yn ôl eu disgresiwn yn dibynnu ar anghenion y rhanbarth.

3.16 Yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2023-2024), mae prif nodau Gwaith Chwarae wedi dychwelyd i'w fwriadau gwreiddiol. Yn wir, yn ôl Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae 2023 i 24: canllawiau i awdurdodau lleol[15], dau brif nod y rhaglen yw 'darparu cyfleoedd chwarae wedi'u cyfoethogi' a 'helpu i leihau llwgu yn ystod y gwyliau drwy ddarparu bwyd/byrbrydau iach’.

3.17 Mae'r data cyfweliadau a gasglwyd yn ystod y prosiect hwn yn awgrymu, ar lefel strategol a rhanbarthol, bod cydlynwyr cenedlaethol a rhanbarthol Gwaith Chwarae yn credu mai prif nod y rhaglen yw darparu cyfleoedd chwarae mynediad agored, a bod mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau yn nod eilaidd, llai pwysig, o'r fenter. Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos hyn, ac mae'n nodi hefyd yr

---

[14] Llywodraeth Cymru (2020) Gwerthusiad o Gynllun Peilot Gwaith Chwarae 2019: Llwgu yn ystod y Gwyliau, Caerdydd, Llywodraeth Cymru

[15] Llywodraeth Cymru (2023) Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae – Canllawiau i awdurdodau Lleol 2023-4, Caerdydd, Llywodraeth Cymru

amrywiad rhwng y canllawiau a chanfyddiad swyddogion ynglŷn â phwrpas Gwaith Chwarae:

> ‘Pe bawn i'n cymharu'r ddau, fe wnaethon ni ddyrannu mwy o arian i'r ddarpariaeth chwarae ond fe wnaethon ni wneud yn siŵr bod rhywfaint o'r arian rydyn ni'n ei roi iddyn nhw'n cael ei ddefnyddio ar fyrbrydau iach. Felly dyw e ddim wedi bod yn brif ffactor.’

3.18 Eglurodd un unigolyn a gafodd ei gyfweld bod darparu mwy o gyfleoedd chwarae mynediad agored yn 'rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol', ac felly'n nod strategol pwysig i Lywodraeth Cymru.

## Cymharu nodau

3.19 Yn gyffredinol, mae llenyddiaeth polisi yn awgrymu bod gan y rhaglen SHEP a Gwaith Chwarae sawl nod cyffredin, ac fe'u hamlinellir yn Nhabl 3.1.

3.20 Fodd bynnag, mae data'r cyfweliadau'n awgrymu hefyd bod nod blaenoriaeth y ddwy raglen yn cyflwyno darpariaeth benodol ac angenrheidiol, gan fod SHEP yn canolbwyntio erbyn hyn ar fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau fel nod blaenoriaeth, ac yn dal i geisio cyflawni canlyniadau a fwriadwyd y model rhesymeg a luniwyd yn 2019. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Gwaith Chwarae yn canolbwyntio mwy ar gyflwyno darpariaeth chwarae mynediad agored am ddim nad yw'n un o nodau'r rhaglen SHEP.

**Tabl 3.1: Nodau'r rhaglen**

| Amcan Craidd/Canlyniad Bwriedig y Rhaglen | SHEP | Gwaith Chwarae |
|---|---|---|
| Iechyd meddwl a lles emosiynol gwell | ✓ | ✓ |
| Ymgysylltiad ysgolion a chyrhaeddiad addysgol gwell | ✓ | |
| Dyheadau gwell | ✓ | ✓ |
| Gweithgarwch corfforol gwell | ✓ | ✓ |
| Ymddygiad deietegol gwell | ✓ | |
| Mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau | ✓ | ✓ |
| Darparu cyfleoedd chwarae mynediad agored | | ✓ |

## Gweithredu: Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

3.21 Mae'r dyraniad cyllid ar gyfer SHEP yn cael ei ddarparu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru i CLILC. Mae CLILC yn rheoli ac yn gweinyddu'r cynllun ledled Cymru, drwy oruchwylio 'arweinwyr cyngor SHEP' ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol, sy'n cydlynu'r rhaglen yn rhanbarthol. Gall arweinwyr cyngor SHEP fod yn weithwyr proffesiynol amlasiantaeth gan gynnwys penaethiaid, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr chwarae, ond yn y pen draw mae pob un ohonynt yn adrodd i Gyfarwyddiaeth Addysg yr awdurdod lleol.

3.22 Gall ysgolion wneud cais i'w hawdurdod lleol i redeg SHEP, ar yr amod bod 16% neu ragor o'u disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gosodir y maen prawf cymhwystra hwn ar lefel yr ysgol, ac mae cynlluniau SHEP yn agored i bob disgybl ar gofrestr yr ysgol sy'n cymryd rhan ni waeth a yw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) ai peidio.

3.23 Cyflwynir SHEP ym mhob ysgol yn ôl model rhagnodol a ddatblygwyd gan CLILC a phartneriaid. Mae sawl elfen graidd orfodol o'r rhaglen SHEP sydd wedi'u nodi isod:[16]

- Rhaglen mewn ysgol a ddarperir gan staff a phartneriaid yr ysgol.
- O leiaf 12 diwrnod dros wyliau haf yr ysgol.
- Darparu brecwast a chinio iach sy'n cadw at ofynion bwydlen SHEP.
- O leiaf un awr o weithgareddau corfforol wedi'u strwythuro bob dydd
- Sesiynau Addysg Bwyd a Maeth SHEP Cymru Gyfan
- Brecwast neu ginio teuluol yn cael ei gynnig o leiaf unwaith yr wythnos.
- Sesiynau cyfoethogi'n cael eu cynnal gan staff a/neu bartneriaid yr ysgol.

[16] CLILC (2023) Adroddiad Gweithredol Bwyd a Hwyl 2022

3.24 Er mwyn darparu'r sesiynau gorfodol Addysg Bwyd a Maeth, mae'n ofynnol i o leiaf dau aelod o staff (yr ysgol yn ddelfrydol) fesul carfan ymgymryd â hyfforddiant Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 2 achrededig Agored Cymru.

3.25 Penderfynir ar gapasiti pob cynllun SHEP yn ôl nifer y carfannau y gwneir cais amdanynt. Mae pob carfan yn cynnwys uchafswm o 40 disgybl. Gellir hawlio uchafswm o £10,000 ar gyfer pob carfan.

3.26 Mae SHEP yn cael ei rhedeg yn bennaf mewn ysgolion cynradd ledled Cymru. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ychwanegwyd modelau eraill fel cynlluniau a gynhelir mewn ysgolion uwchradd, darpariaeth ADY mewn ysgolion arbennig, y model 'hwb' ac Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

3.27 Er bod model SHEP yn rhagnodol a bod yr elfennau craidd yn orfodol, mae yna rywfaint o hyblygrwydd ac mae gan bob cynllun gyfle i deilwra'r ddarpariaeth a gynigir. Eglurodd un unigolyn a gafodd ei gyfweld fod gan ysgolion rywfaint o ddewis ynghylch ffocws y sesiynau, a gallai staff yr ysgol a oedd yn adnabod y plant yn dda ddarparu rhai gweithgareddau yn seiliedig ar eu diddordebau. Yn ogystal, mae rhestr o bartneriaid cenedlaethol (e.e. Undeb Rygbi Cymru, Tennis Bwrdd Cymru etc.) y gall cynlluniau eu defnyddio er mwyn darparu gweithgareddau cyfoethogi.

3.28 Yn ogystal â'r ddarpariaeth reolaidd, yn ystod haf 2023, cynhaliodd y rhaglen SHEP fenter ychwanegol o'r enw 'Bag Bwyd' a oedd yn darparu bag o fwydydd bob dydd i bob un a oedd yn cymryd rhan yn SHEP i fynd adref at ei deulu.

## Gweithredu: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae

3.29 Yn wahanol i'r fenter SHEP, nid yw Gwaith Chwarae yn rhaglen benodedig â fformat rhagnodol.

3.30 Mae prosiectau a ariennir gan ddefnyddio cyllid Gwaith Chwarae yn amrywio’n fawr ledled Cymru, o ddarpariaeth mynediad agored ar raddfa fawr gyda miloedd yn cymryd rhan mewn parc, i ddarpariaeth chwarae ADY arbenigol un i un. Gwneir rhywfaint o ddarpariaeth mewn modd symudol, peripatetig gan ddefnyddio fan chwarae, a elwir yn fodel 'ceidwad chwarae'.

3.31 Gellir darparu prosiectau a ariennir gan ddefnyddio cyllid Gwaith Chwarae mewn unrhyw gyfnod gwyliau ysgol trwy gydol y flwyddyn ysgol neu hyd yn oed ar benwythnosau yn ystod y tymor ysgol.

3.32 I wneud cais am gyfran o’r cyllid Gwaith Chwarae, rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflen gynnig i'r Tîm Polisi Chwarae yn Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut maen nhw'n bwriadu defnyddio'r cyllid. Mae'r cynigion hyn wedi'u teilwra i angen lleol, yn seiliedig ar unrhyw fylchau a nodwyd gan Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSA) pob awdurdod lleol. O'r herwydd, bydd darpariaeth a ariennir gan Gwaith Chwarae yn debygol iawn o fod mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol.

3.33 Thema bwysig trwy’r data oedd bod hyblygrwydd cyllid Gwaith Chwarae yn agwedd werthfawr ar y fenter yn lleol ac yn genedlaethol, gan ei fod yn caniatáu i'r ddarpariaeth gael ei theilwra i anghenion cymunedau unigol.

3.34 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, amlinellir meysydd blaenoriaeth gyda chanllawiau ar sut y gellid defnyddio'r cyllid fel blaenoriaeth - fodd bynnag, nid yw'r rhain yn opsiynau gorfodol, nac yn rhestr gynhwysfawr o enghreifftiau. Yng nghanllawiau 2023-24[17], amlinellir pum maes blaenoriaeth fel a ganlyn:

- Blaenoriaeth 1. Ymestyn oriau neu ddyddiau'r ddarpariaeth gwaith chwarae presennol.
- Blaenoriaeth 2. Dylai Awdurdodau Lleol edrych ar y bylchau yn y ddarpariaeth chwarae mewn ardaloedd lle mae angen, a lle nodir bylchau, gallant ddefnyddio cyllid i gefnogi'r gwaith o sefydlu/ailsefydlu lleoliadau gwaith chwarae.
- Blaenoriaeth 3. Ychwanegu bwyd at ddarpariaeth gymunedol, chwarae mynediad agored neu ofal plant y tu allan i’r ysgol.
- Blaenoriaeth 4. Ystyried ariannu ychwanegu bwyd at leoliadau ieuenctid.
- Blaenoriaeth 5. Ystyried ariannu lleoedd mewn lleoliadau gofal plant neu leoliadau y tu allan i'r ysgol ar gyfer plant sydd mewn perygl o lwgu yn ystod

[17] Blaenoriaethau a restrir yn y ddogfen ganllaw: Llywodraeth Cymru (2023) Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae – Canllawiau i awdurdodau Lleol 2023-4, Caerdydd, Llywodraeth Cymru (Atodiad C)

y gwyliau pan nad oes darpariaeth arall yn bodoli, neu lle bydd manteision ychwanegol gofal plant a chwarae yn cael effaith sylweddol ar y plentyn.

3.35 Mae darpariaeth bwyd a ariennir gan Gwaith Chwarae yn tueddu i gael ei chyfyngu i fyrbrydau a diodydd iach yn hytrach na phrydau poeth. Mae canllawiau clir wedi'u nodi yn y canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch y bwyd y gellir ei ddarparu fel ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthu bwydydd iach yn unig. Yn ogystal, nodir yn y canllawiau bod yn rhaid i'r cynnig bwyd fod ar gyfer pob cyfranogwr nid dim ond y rhai sy'n agored i niwed, er mwyn osgoi unrhyw stigmateiddio.

3.36 Fodd bynnag, esboniodd llawer o gyfranogwyr yn ystod cyfweliadau eu bod yn ei chael hi'n anodd darparu bwyd mewn darpariaeth chwarae mynediad agored gyda'r swm bach o gyllid y mae Gwaith Chwarae yn ei ddarparu:

> ‘Dyw pob darpariaeth ddim yn darparu byrbrydau iach oherwydd dyw'r cyllid ddim ar gael. Mae £1,000,000 wedi'i rannu rhwng 22 o awdurdodau lleol [...] Ydych chi'n gwario'r holl arian ar y bwyd ac yna dim ond nifer cyfyngedig o blant sy'n elwa neu ydych chi'n ceisio ei wasgaru?’

## Gweithredu: cymhariaeth

3.37 Ar y cyfan, mae cyllid Gwaith Chwarae yn cael ei weithredu’n wahanol iawn i SHEP. Mae'r rhaglen SHEP yn gynllun penodol, rhagnodol a ddarperir mewn lleoliadau ysgol yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar feini prawf penodol gyda hyfforddiant canolog ac mae’n cael ei chyflwyno'n gyson ledled Cymru.

3.38 Mae cyllid Gwaith Chwarae, ar y llaw arall, yn gyllid grant hyblyg sydd ar gael i ymestyn darpariaeth chwarae mynediad agored bresennol neu ariannu darpariaeth o’r fath newydd. Mae'r gweithredu yn dibynnu ar angen lleol sy'n cael ei ganfod gan asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae awdurdodau lleol.

3.39 Mae rhagor o wybodaeth am feini prawf gweithredu penodol y ddwy raglen ar gael yn y Ffurflen Gais SHEP yn Atodiad B a Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae: canllawiau: canllawiau i awdurdodau lleol, yn Atodiad C.[18]

[18] Llywodraeth Cymru (2023) Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae – Canllawiau i awdurdodau Lleol 2023-4, Caerdydd, Llywodraeth Cymru (Atodiad C)

**Tabl 3.2 Meini prawf gweithredu craidd y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf o gymharu â'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae**

| Meini Prawf Gweithredu Craidd y Rhaglen | Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf | Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae |
|---|---|---|
| Cydlynir gan | Cydlynir yn genedlaethol gan CLILC, yn rhanbarthol gan Arweinwyr Bwyd a Hwyl Cynghorau | Cydlynir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, yn rhanbarthol gan Arweinwyr Chwarae |
| Lleoliad | Ysgolion yn unig | Unrhyw leoliad (e.e. parciau, hybiau cymunedol, chwarae ar garreg y drws ac ati.) |
| Cymhwystra | Rhaid i 16% o ddisgyblion ysgol fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Dim meini prawf cymhwystra, ond yn cael ei gynnal mewn ardaloedd o angen, a nodir gan yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae |
| Gweithgareddau | Cyfoethogi, gweithgarwch corfforol, addysg maeth | Chwarae mynediad agored |
| Prydau bwyd a ddarperir | Brecwast a chinio poeth ar bob diwrnod o'r ddarpariaeth yn unol â gofynion bwydlen | Byrbrydau iach yn bennaf, mae rhai darpariaethau'n darparu pecynnau cinio neu hyd yn oed brydau poeth |
| Cyfnod gweithredu | Haf yn unig | Unrhyw gyfnod gwyliau, ar ôl ysgol neu ar benwythnosau |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer yr oriau fesul sesiwn | (hyd at) diwrnod llawn | Oni bai bod darpariaeth wedi'i chofrestru ag AGC (nid yw'r mwyafrif), hyd at 1 awr 59 y sesiwn |

## Adnoddau: Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

3.40 Gan fod yr adnoddau penodol ar lefel cynllun sy'n angenrheidiol i hwyluso'r mentrau SHEP a Gwaith Chwarae yn niferus ac amrywiol yn dibynnu ar ddull cyflwyno ac anghenion y rhanbarth, mae'r adran ganlynol yn cyflwyno archwiliad o'r prif adnoddau sydd eu hangen i hwyluso pob cynllun. Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

3.41 Dyrannodd Llywodraeth Cymru £4.85 miliwn i SHEP yn 2023-24, gydag ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i 'gefnogi a thyfu'r rhaglen'.

3.42 Ar hyn o bryd mae SHEP yn yr ail o dair blynedd o gyllid dangosol, a nododd swyddogion CLlLC bryderon am gynlluniau ar gyfer y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Nododd un unigolyn a gafodd ei gyfweld y byddai cael ymrwymiad cyllid parhaus yn rhoi sicrwydd a hyder i gydlynwyr y cynllun ac yn galluogi ysgolion i gynnwys SHEP yn eu cynlluniau.

3.43 Yn ogystal, nodwyd un o'r unigolion a gafodd ei gyfweld nad yw derbyn yr arian yn flynyddol wedi caniatáu comisiynu unrhyw werthusiad hydredol, felly nid yw canlyniadau hirdymor cymryd rhan yn SHEP wedi'u hymchwilio.

3.44 O ran adnoddau angenrheidiol yn lleoliadau'r cynllun, mae ffurflen gais SHEP yn nodi mai dim ond ysgolion sy'n gallu darparu prydau poeth ac oer, man bwyta o faint addas, man chwarae dan do a gofod y tu allan, toiledau hygyrch ac ystafelloedd dosbarth y gellir eu defnyddio. Gallai'r gofynion hyn olygu na all ysgol gynnal SHEP os oes unrhyw waith ailwampio neu adeiladu yn cael ei wneud yn ystod gwyliau'r haf.

3.45 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn dweud bod darparu SHEP ar safleoedd ysgolion o fudd i'r rhaglen, yn enwedig gan y gallai hwn fod yn lle cyfarwydd lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Fodd bynnag, ar ôl ei chael hi'n anodd sicrhau lleoliad ar gyfer un o'u cynlluniau SHEP yn 2023, awgrymodd un o'r unigolion a gafodd ei gyfweld, pe na bai ysgol ar gael am unrhyw reswm, y byddai'n fuddiol gweithredu rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y lleoliad.

3.46 Mae'r rhaglen SHEP yn ei gwneud yn ofynnol i dîm o staff redeg y ddarpariaeth ym mhob ysgol. Mae rhai awdurdodau lleol fel awdurdod lleol 6 yn cyflogi tîm

canolog o staff sy'n darparu'r holl ddarpariaeth yn y fwrdeistref, ond mewn ardaloedd eraill, bydd yr ysgol yn dyrannu rolau i staff. Y gofynion staffio lleiaf ar gyfer SHEP yw:

- Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Rhaglen
- Cydlynydd SHEP Ysgol (1 fesul ysgol)
- Cynorthwywyr Bwyd a Hwyl Ysgol (1 i bob 20 o blant)
- Gofalwr
- Cogydd

3.47 Am ragor o wybodaeth, gweler y ffurflen gais yn Atodiad B.

3.48 Rhaid i ddau aelod o staff i bob carfan fod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol mewn Sgiliau Maeth Am Oes.

3.49 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae SHEP yn cael ei ddarparu gan staff yr ysgol gan gynnwys staff addysgu a chynorthwywyr addysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn un o ofynion y rhaglen, a gall staff o sawl cylch gwaith gwahanol gyflwyno SHEP.

3.50 Yn ogystal, mae llawer o awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu gwirfoddol i helpu i staffio SHEP. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol wedi bod yn datblygu ei fodel gwirfoddoli ers sawl blwyddyn. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r chweched dosbarth yn lleol i recriwtio gweithlu gwirfoddol i ddarparu eu darpariaeth gwyliau:

> ‘Mae'n ymwneud â rhoi cyfleoedd i'r bobl ifanc roi rhywbeth yn ôl i'w cymuned. Gallan nhw ei ddefnyddio ar gyfer eu Bagloriaeth Cymru, gallan nhw ei ddefnyddio ar gyfer profiad gwaith. Gallan nhw ei ddefnyddio dim ond i wneud rhywbeth yng nghalon y gymuned, ond yna byddwch chi'n eu hyfforddi, rydych chi'n eu grymuso i fod yn rhan o'r tîm hwnnw.’

3.51 Mae angen llawer o waith gweinyddol cefndirol i hwyluso SHEP gan gynnwys cynefino ysgolion a chwblhau gwaith papur. Nododd awdurdodau lleol ei bod yn bwysig dechrau'r broses gynllunio yn ddigon cynnar i wneud unrhyw newidiadau

angenrheidiol. Felly, i helpu gyda gwaith gweinyddol a chynllunio canolog SHEP, gall cynlluniau dynnu i lawr hyd at £1,000 y garfan.

3.52 Fel arall, mae gan bob awdurdod lleol yr opsiwn i recriwtio Swyddog Cymorth Cynorthwyol (SCC), sy'n gweithio (yn rhan-amser) ar SHEP, 52 wythnos y flwyddyn. Eglurodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld fod y rôl SCC yn amhrisiadwy a'i bod wedi helpu nid yn unig i leihau baich gweinyddol SHEP ar awdurdodau lleol, ond ei bod wedi helpu hefyd i gynorthwyo gyda thwf a chyrhaeddiad SHEP ledled Cymru, trwy gyfarfod â rhanddeiliaid ac ysgolion amrywiol i ddweud wrthynt am fanteision rhedeg SHEP.

## Adnoddau: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae

3.53 Derbyniodd y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae £1 miliwn yn 2022-2023. Cafodd y cyllid ei ddosbarthu ymhlith y 22 awdurdod lleol drwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan. Mae swm y cyllid a ddyrannwyd i bob awdurdod lleol yn seiliedig ar swm Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion y tair prif ysgol o’r fformiwla cyllido setliad llywodraeth leol.

3.54 Fodd bynnag, awgrymodd dau o'r rhai a gafodd eu cyfweld y bwriedir cyfuno'r grant hwn â'r Grant Plant a Chymunedau (CCG). Eglurodd y ddau fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud er mwyn gwneud y broses ymgeisio yn llai biwrocrataidd ac i ddarparu mwy o ymreolaeth dros unrhyw danwario.

3.55 Nid oes rhaid cynnal prosiectau a ariennir gan Gwaith Chwarae mewn lleoliad penodol. Fodd bynnag, mae yna feini prawf cymhwystra y mae'n rhaid eu bodloni i gynnal Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae yn cynnwys gwiriadau diogelu perthnasol, hyfforddiant ac asesiad risg.

3.56 Yn ogystal, ni all darpariaeth chwarae mynediad agored redeg am fwy na 1.59 awr heb gael ei chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Fe wnaeth nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld a oedd yn rhan o Gwaith Chwarae fynegi pryder yn ystod y cyfweliad nad oedd modd cofrestru ag AGC oherwydd gofynion hyfforddi staff a lefelau isel o gyllid a dderbynnir.

3.57 Gan fod y prosiectau y mae Gwaith Chwarae yn helpu i'w hariannu mor amrywiol, mae gofynion penodol staff Gwaith Chwarae yn ddibynnol iawn ar y math o

ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig, y cymarebau gofynnol ar gyfer pob grŵp oedran a'r math o weithgaredd. Fodd bynnag, mae’r gweithlu Gwaith Chwarae fel arfer yn cynnwys gweithwyr chwarae, arweinwyr chwaraeon a gwirfoddolwyr.

## Partneriaethau: Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

3.58 Mae nifer y partneriaid unigol sy'n angenrheidiol i hwyluso SHEP yn helaeth ac mae'n cynnwys chwarae, chwaraeon, gwasanaethau plant, awdurdodau lleol, arweinwyr ysgolion, grwpiau cymunedol, iechyd y cyhoedd, staff ysgolion bro, dieteteg y GIG, y trydydd sector ac arlwyo. Fodd bynnag, mae'r drafodaeth ganlynol yn canolbwyntio ar y prif bartneriaid a amlinellwyd gan gyfranogwyr yn ystod y cyfweliadau.

3.59 Nododd llawer o'r rhai a holwyd mai ysgolion oedd y partner pwysicaf wrth hwyluso SHEP, a bod sefydlu perthynas gadarn a sianeli cyfathrebu agored gydag ysgolion yn ganolog i'w llwyddiant.

3.60 Mewn awdurdodau lleol a oedd yn rhedeg model 'hwb' o SHEP, eglurodd swyddogion sut maen nhw'n cydweithio â phenaethiaid a staff i nodi plant a fyddai'n elwa fwyaf ar gael gwahoddiad i fynychu SHEP a sicrhau bod gan gydlynwyr y cynllun yr holl wybodaeth angenrheidiol i ddiwallu anghenion pob plentyn.

3.61 Yn ogystal, amlinellodd bron pob un o'r rhai a holwyd sut roedd Ysgolion Bro wedi bod yn bartner arbennig o ddefnyddiol wrth gynllunio a hwyluso SHEP.

## Partneriaethau: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae

3.62 Gan fod y prosiectau y mae Gwaith Chwarae yn helpu i'w hariannu mor amrywiol, gall y partneriaethau sy'n gysylltiedig â galluogi Gwaith Chwarae fod yn helaeth, ac yn ddibynnol ar y math o ddarpariaeth sy'n rhedeg. Fodd bynnag, mae'r drafodaeth ganlynol yn canolbwyntio ar y prif bartneriaid a amlinellwyd gan gyfranogwyr yn ystod y cyfweliadau.

3.63 Wrth hwyluso prosiectau a ariennir gan Gwaith Chwarae, eglurodd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld eu bod yn dibynnu ar bartneriaid allanol i'w helpu i ddarparu'r bwyd yn eu cynlluniau. Er enghraifft, esboniodd un a gafodd ei gyfweld fod archfarchnad wedi gweithredu fel partner, gan ddarparu bisgedi, ffrwythau, creision a diodydd. Yn haf 2023, fe wnaeth awdurdod lleol ffurfio partneriaeth â'r

gwasanaeth ieuenctid a'r cydlynydd ysgolion bro a oedd yn darparu bwyd a diodydd o'u fan gwasanaeth.

3.64 Ar ôl i'r ddarpariaeth gael ei chynnal, disgrifiodd llawer o'r rhai a holwyd sut y byddai partneriaid yn cael cais i ddosbarthu unrhyw fwyd a oedd dros ben a'i roi i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Er enghraifft, esboniodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld sut roedd gweithwyr gwasanaeth y blynyddoedd cynnar yn mynd â bwyd dros ben i fenywod digartref mewn unedau mamau a babanod yn y fwrdeistref. Yn yr un modd, ar achlysur arall, casglodd gweithiwr cymdeithasol y bwyd a sicrhau ei fod yn cael ei gludo i deuluoedd mewn angen.

3.65 Amlinellodd nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld sut roeddent wedi gwahodd partneriaid cymunedol fel elusen cyngor ariannol, y gwasanaeth ieuenctid a'r rhwydwaith rhieni i fynychu eu digwyddiadau 'Chwarae yn y Parc' ar raddfa fwy gan

> ‘ei fod yn gyfle iddyn nhw ddweud wrth rieni bod cefnogaeth ar gael, i ddweud dewch draw i'n grwpiau, rydych chi'n fy nabod i nawr, ac yna mae'n meithrin y cysylltiadau hynny, yn adeiladu’r berthynas 'na â nhw, ac yna maen nhw'n fwy tebygol o fynd draw a chymryd rhan oherwydd maen nhw wedi cwrdd â'r staff ac maen nhw'n gwybod fyddan nhw ddim yn cael eu barnu a'u bod yn mynd i gael croeso’

## Rhwystrau: Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

3.66 Er nad yw'n rhan o'r amcanion ymchwil gwreiddiol, mae sawl rhwystr o ran twf, hwyluso a darparu SHEP wedi'u nodi trwy ddata’r cyfweliadau. Felly, bydd yr adran hon yn archwilio'r tri phrif rwystr a nodwyd; sicrhau staff, sicrhau cefnogaeth gan ysgolion a hyfforddiant Sgiliau Maeth.

3.67 Nododd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld mai staffio oedd y prif rwystr o ran hwyluso'r fenter SHEP. Un anhawster a brofwyd gan lawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld oedd sicrhau staff arlwyo sydd ar gael i weithio yn ystod y gwyliau:

> ‘Mewn rhai achosion, roedd rhai o'n staff roedden ni'n gwybod bod ganddyn nhw gymhwyster Lefel 3 a hylendid bwyd yn gorfod gweithio yn rhai o'r ceginau dim ond er mwyn gallu cael y bwyd allan oherwydd allen ni ddim cael digon o staff arlwyo a fyddai'n barod i weithio yn y gwyliau.’

3.68 Yn yr un modd, un rhwystr enfawr o ran ehangu SHEP yw cael cefnogaeth gan ysgolion. Eglurodd un o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod tua 750 o ysgolion cymwys heb wneud cais am SHEP ac er eu bod yn ansicr o'r rhesymau penodol am hynny, y rhesymau tebygol yw: gwaith adeiladu wedi'i gynllunio mewn ysgolion yn ystod gwyliau'r haf, diffyg capasiti staff i ymgymryd â gwaith ychwanegol a/neu staff nad ydynt am golli amser i ffwrdd o'r gwaith.

3.69 Esboniodd rhai o'r unigolion a gafodd eu cyfweld y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â mater staff a'r ffaith fod ysgolion yn gyndyn o gynnal SHEP. Er enghraifft, esboniodd un o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod CLILC wedi ail-ddylunio'r ffurflen gais ar gyfer ysgolion i'w gwneud yn 'haws i'w defnyddio' ac yn 'fwy perthnasol'.

3.70 Amlinellodd un arall a gafodd ei gyfweld sut y gallai'r rôl Swyddog Cymorth Cynorthwyol newydd helpu i oresgyn yr heriau hyn trwy fynd i mewn i ysgolion a chael sgyrsiau yn gynnar iawn yn y flwyddyn am yr hyn y mae SHEP yn ei olygu a sut y gellid ei rhedeg.

3.71 Mae CLILC wedi creu 'Cynhadledd Genedlaethol Bwyd a Hwyl' ac wedi gwahodd darpar fabwysiadwyr y prosiect i wrando ar fyfyrdodau, mewnwelediadau a llwyddiannau ac i wylio fideo o'r cynlluniau.

3.72 Mater arall a ddyfynnwyd gan y mwyafrif o'r rhai a gafodd eu cyfweld a oedd yn peri rhwystr o ran parodrwydd i gymryd rhan yn SHEP yw'r hyfforddiant Sgiliau Maeth am Oes. Mae'r hyfforddiant hwn yn galluogi agwedd addysgol y rhaglen wrth i staff dderbyn hyfforddiant achrededig ac ennill Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) lefel 2 mewn Sgiliau Maeth sy'n eu galluogi i gyflwyno sesiynau maethol craidd SHEP. Eglurodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld ei bod yn ormod o ymrwymiad i ysgolion ryddhau staff i gymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi hynny. Awgrymodd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld y gallai hyfforddiant mewnol, neu rithwir fod yn fwy priodol.

3.73 Oherwydd y problemau gyda'r ymrwymiad hwn, mae CLILC wedi cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y gofyniad hwn. Mae un o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn esbonio y gall y cynllun redeg erbyn hyn gyda dim ond un aelod staff cymwysedig ac fe ganiateir i'r aelod staff hwnnw bellach gyflwyno'r hyfforddiant i grwpiau o hyd at 20 o blant ar y tro. Yn ogystal, gall yr awdurdod lleol benderfynu ei bod yn fwy

effeithiol darparu 'hyfforddwr symudol' a all ddarparu'r agwedd faeth ym mhob un o'i gynlluniau.

# 4. Canfyddiadau: Gorgyffwrdd rhwng darpariaeth gwyliau ysgol

4.1 Er mwyn mynd i'r afael â'r amcan ymchwil hwn, gofynnwyd i randdeiliaid mewnol a swyddogion CLILC nodi ac amlinellu meysydd o orgyffwrdd neu ddyblygu posibl rhwng darpariaeth gwyliau ysgol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

4.2 Daeth pum thema i'r amlwg o'r data:

- Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae a SHEP
- SHEP a'r sector gofal plant y tu allan i oriau ysgol Llywodraeth Cymru
- SHEP a chynlluniau cenedlaethol eraill nas ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Gorgyffwrdd â'r cyfoeth o ddarpariaeth leol ar raddfa lai
- Symud tuag at alinio cenedlaethol

4.3 Mae'r pedair thema gyntaf yn cynrychioli'r meysydd cyffredinol o orgyffwrdd o safbwynt rhanddeiliaid ac mae'r bumed thema, 'symud tuag at alinio cenedlaethol', yn archwilio'r mecanweithiau a nodwyd gan randdeiliaid a allai annog alinio darpariaeth gwyliau ysgol yn genedlaethol.

## Y ddarpariaeth SHEP a darpariaeth chwarae yn ystod y gwyliau

4.4 Awgrymodd rhai unigolion a gafodd eu cyfweld mai'r maes mwyaf o orgyffwrdd yn narpariaeth gwyliau ysgol yw'r gorgyffwrdd thematig yn SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae. Nododd un a gafodd ei gyfweld y dylid cael mwy o alinio rhwng y rhaglenni yn y dyfodol 'er mwyn cynnig darpariaeth gydlynol gyda rheswm cydlynol' yn hytrach na dyblygu ymdrechion.

4.5 Yn ogystal, cytunodd rhai a gafodd eu cyfweld fod alinio SHEP a darpariaeth chwarae'r gwyliau wedi cael ei gymhlethu ymhellach trwy gyflwyno ffrydiau cyllido i adfer ar ôl Covid-19. Yn 2021-2022, roedd Haf o Hwyl, Gaeaf Llawn Lles a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae i gyd yn rhedeg ar yr un pryd â'r ddarpariaeth SHEP, yn ogystal â darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ysgol i deuluoedd cymwys. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 'cyllido dwbl' ei osgoi drwy gael gwared ar ddarpariaeth bwyd mewn sesiynau chwarae. Fe wnaeth y ffrydiau

ariannu gwahanol hyn gyda nodau a oedd yn gorgyffwrdd beri dryswch i gydlynwyr awdurdodau lleol gan ei gwneud hi'n anodd cynllunio sut i ddefnyddio'r cyllid.

4.6 Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, mae'r dirwedd polisi hon eisoes yn rhoi llawer llai o gyfle i ddarpariaeth orgyffwrdd gan fod cyllid adfer ar ôl Covid-19 bellach wedi dod i ben. Daeth darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ysgol i ben ym mis Ebrill 2023, ac nid yw Haf o Hwyl na Gaeaf Llawn Lles yn cael eu hariannu bellach.

## SHEP a'r sector gofal plant y tu allan i oriau ysgol

4.8 Dywedodd nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod SHEP nid yn unig mewn cystadleuaeth â darpariaethau gwella'r gwyliau neu chwarae eraill, ond bod perygl hefyd iddi gystadlu â'r sector gofal plant y tu allan i oriau ysgol, yn enwedig Clybiau Plant Cymru Kids' Club, y ddarpariaeth genedlaethol a ariennir yn breifat.

4.9 Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Club yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gofal plant y tu allan i oriau ysgol - yn aml ar safleoedd ysgolion - ar ôl ysgol ac yn ystod cyfnodau gwyliau. Felly, pe bai SHEP yn parhau ar hyd ei llwybr presennol ac yn ehangu i fwy o ysgolion, ac yn cael ei chynnal mewn cyfnodau gwyliau eraill, yna efallai y bydd yn cystadlu'n uniongyrchol â'r ddarpariaeth gofal plant hon y mae'n rhaid talu amdani.

4.10 Nodir yn adran cyfyngiadau'r adroddiad hwn na chynhaliwyd cyfweliadau gyda'r sector gofal plant y tu allan i oriau ysgol fel rhan o'r ymchwil hon. Byddai unrhyw waith yn y dyfodol ar alinio darpariaeth gwyliau yn cael ei wella trwy ymgysylltu â'r partneriaid hyn.

## SHEP a chynlluniau cenedlaethol allanol eraill

4.11 Datgelodd y data fod yna ddarpariaethau gwyliau cenedlaethol eraill nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru sydd â meysydd allweddol sy'n gorgyffwrdd â SHEP. O'r rhain, GemauStryd yw'r sefydliad mwyaf ac sy'n alinio fwyaf.

4.12 Mae GemauStryd yn cynnal rhaglen genedlaethol mewn llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru o'r enw 'Fit and Fed', sy'n ceisio mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, a darparu gweithgareddau chwaraeon am ddim mewn ardaloedd o

anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru[19]. Mae ei fodel yn debyg iawn i SHEP a Gwaith Chwarae. Fe wnaeth lawer o randdeiliaid dynnu sylw at bryderon am y gorgyffwrdd posibl hwn.

4.13 Fodd bynnag, fel y disgrifiodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld, roedd teimlad ymhlith rhanddeiliaid hefyd bod y rhaglenni hyn o fudd i blant, ac wedi helpu i fodloni galw na ellid ymateb iddo gan un rhaglen yn unig.

4.14 Pryder arall a gyflwynwyd gan y mentrau allanol hyn sy'n cynnig darpariaethau cenedlaethol tebyg oedd bod eu negeseuon yn aml yn wahanol i negeseuon SHEP. Er enghraifft, tan 2022, roedd Undeb Rygbi Cymru yn cynnal gwersylloedd 'Fit, Fed and Fun' a oedd â'r nod o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau ond nad oeddent yn darparu bwyd iach i blant. Esboniodd swyddog o CLlLC bwysigrwydd bod 'pob plentyn yn haeddu mynediad cyfartal i fwyd da, maethlon' ac o ganlyniad maen nhw wedi cydweithio ag URC a'u cynnwys fel Partner Cenedlaethol y rhaglen SHEP er mwyn lleihau'r gorgyffwrdd, ac alinio negeseuon a nodau'r ddwy raglen. O ganlyniad i'r cydweithio hwn, datblygwyd catalog rhithwir, y Pecyn Cymorth Partneriaid Cenedlaethol, gan bartneriaid sy'n gallu darparu'n genedlaethol. Un enghraifft yw Tennis Bwrdd Cymru, a fyddai'n cael ei ddarparu i gynlluniau er mwyn cydweithio, gyda'r nod o roi cyfle cyfartal i bob plentyn:

> 'Bydden ni'n cyfeirio plant o'r cynllun Bwyd a Hwyl i'w gwersylloedd Fit, Fed and Fun nhw a fyddai'n rhedeg yn lleol, naill ai mewn ysgolion neu mewn clybiau rygbi er mwyn ceisio aildanio diddordeb mewn rygbi ymhlith y plant yn lleol. Y cafeat i hynny oedd y byddai unrhyw fwyd roedden nhw'n ei ddarparu ar y safle hwnnw fel rhan o'r cyfeirio hwnnw hefyd yn ategu ein negeseuon am faeth fel nad oedd unrhyw negeseuon croes.'

## SHEP a darpariaeth anghofrestredig

4.15 Roedd llawer o randdeiliaid yn cydnabod na fydd y darlun llawn o ran darpariaeth gwyliau'r ysgol a'r dyblygu posibl sy'n bodoli byth yn cael ei ddeall yn llawn, o ystyried ehangder y cynlluniau ar raddfa leol a chenedlaethol sy'n rhedeg darpariaeth gwyliau ysgol ledled Cymru ar sail anghofrestredig. Eglurodd un a

[19] GemauStryd (2022) Wales Fit and Fed Report 2022

gafodd ei gyfweld, os yw darpariaeth yn rhedeg y tu allan i feini prawf Safonau Gofynnol Cenedlaethol yna nid oes rhaid iddi gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac felly ni all awdurdodau lleol fapio'u darpariaeth yn hawdd i atal dyblygu gyda SHEP a Gwaith Chwarae.

## Symud tuag at alinio yn genedlaethol

4.16 Wrth archwilio'r meysydd gorgyffwrdd hyn, cynigiodd rhanddeiliaid awgrymiadau ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darpariaeth gwyliau ysgol yn alinio mwy yn y dyfodol.

4.17 Yr awgrym cyntaf oedd cael darlun cliriach o'r union ddarpariaeth sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd cydnabyddiaeth gan randdeiliaid bod darpariaeth gwyliau yn cael ei rheoli ar hyn o bryd mewn seilo a phe bai un tîm yn gyfrifol am oruchwylio'r holl ddarpariaeth gwyliau ysgol yng Nghymru, gallai hyn hwyluso goruchwyliaeth fwy strategol 'er mwyn sicrhau bod anghenion plant ar lefel gymunedol yn cael eu diwallu’.

4.18 Awgrym pellach i hwyluso'r aliniad strategol hwn oedd cynnal ymarfer mapio o'r holl ddarpariaeth gwyliau ysgol bresennol. Byddai hyn yn helpu i nodi bylchau, dyblygu a nodau ar draws y gwahanol raglenni:

> ‘Dydw i ddim yn credu bod gennym ni fap da yn Llywodraeth Cymru o'r holl ddarpariaeth sydd ar gael i blant yn y sector anghofrestredig. Rwy'n credu mai dim ond gwybodaeth am y rhai sydd wedi'u cofrestru sydd gennym. Byddai gan awdurdodau lleol fwy o fanylion ar hynny ond dydw i ddim yn gwybod a ydyn ni'n casglu'r wybodaeth honno fel mater o drefn. Felly byddai hynny'n ddefnyddiol.’

4.19 Yn olaf, awgrymodd rhai a gafodd eu cyfweld y gellid gwneud mwy i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth yn genedlaethol yn Llywodraeth Cymru er mwyn annog cydweithio amlasiantaeth mewn perthynas â darpariaeth gwyliau ysgol ar lefel yr awdurdod lleol. Er enghraifft, esboniodd un a gafodd ei gyfweld, o ystyried bod arweinwyr chwarae mewn adrannau gwahanol, efallai na fyddant yn gwybod o reidrwydd pwy yw'r arweinwyr SHEP perthnasol. Felly, gallai creu cysylltiadau rhwng arweinwyr SHEP ac arweinwyr chwarae annog cydweithredu lleol.

4.20 Yn yr un modd, mae un arall a gafodd ei gyfweld yn awgrymu y gallai cysylltu'r CLILC â rhwydweithiau Ysgolion Bro hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth ddefnyddiol.

# 5. Canfyddiadau: cyfleoedd i leihau unrhyw ddyblygu ar gyfer Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

5.1 Er mwyn mynd i'r afael â'r amcan ymchwil hwn (nodi cyfleoedd i leihau dyblygu darpariaeth gwyliau ysgol yn lleol), bu'r tîm ymchwil yn ymgysylltu â chydlynwyr rhanbarthol mentrau SHEP a/neu’r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae mewn chwech o'r 22 ardal awdurdod lleol ledled Cymru. Dewiswyd yr ardaloedd 'astudiaeth achos' hyn gan fod naill ai CLILC neu'r tîm polisi Chwarae wedi nodi bod ganddynt safbwynt diddorol a gwerthfawr ar yr aliniad rhwng y ddwy raglen hyn a darpariaeth arall yn ystod gwyliau'r ysgol.

5.2 Isod, ceir darlun byr o ardal 'astudiaeth achos' pob awdurdod lleol, y mentrau y maen nhw'n eu rhedeg a'r safbwyntiau a ddarparwyd ganddynt ar aliniad SHEP a Gwaith Chwarae.

5.3 Yn dilyn y darlun byr, mae yna ddadansoddiad o'r mecanweithiau a ddefnyddiwyd gan yr awdurdodau lleol hyn i hwyluso cydweithredu ar draws darpariaeth gwyliau ysgol. Mae hyn wedi'i gysyniadu yn bedair thema gyffredinol sef:

- Alinio ar lefel strategol
- Darpariaeth mapio/amserlennu
- Cyfathrebu amlasiantaeth effeithiol
- Mabwysiadu dull seiliedig ar asedau

5.4 Darlun byr

Chwe ardal 'astudiaeth achos' awdurdod lleol

**Awdurdod Lleol 1.** Yn 2022-23, cynigiodd yr ardal awdurdod lleol hon y rhaglen SHEP mewn <10 o ysgolion cynradd ledled y fwrdeistref. Defnyddiwyd cyllid Gwaith Chwarae yn bennaf i ariannu'n rhannol sesiynau chwarae mynediad agored mawr mewn parciau a mannau awyr agored yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Nodwyd bod y swyddog digonolrwydd cyfleoedd chwarae a'r cydlynydd SHEP yn yr awdurdod lleol hwn wedi meithrin perthynas wych, a'u bod yn cydweithio'n agos iawn er mwyn alinio eu darpariaeth gwyliau ysgol yn strategol ac yn weithredol. Maen nhw'n gwneud hyn drwy ddefnyddio eu cynlluniau priodol yn y ffordd fwyaf priodol i ymateb i angen lleol ac felly sicrhau'r cynnig gorau posibl i blant a theuluoedd.

**Awdurdod Lleol 2.** Yn 2022-23, gwelodd yr ardal awdurdod lleol hwn dwf esbonyddol yn ei gynllun SHEP. Gan nad oedd dyblygu darpariaeth gwyliau wedi bod yn destun pryder o'r blaen (oherwydd maint cymedrol y cynnig SHEP), dim ond ar ôl cyflwyno darpariaeth gwyliau'r haf 2023 y daeth hi i'r amlwg fod y ddarpariaeth wedi gorgyffwrdd. Yn ogystal, mae'r rhanbarth hwn wedi gweld dyblygu gan fentrau gwyliau eraill gan gynnwys GemauStryd, sy'n gweithredu darpariaeth fawr yn y fwrdeistref. Rhannodd cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol hwn eu myfyrdodau ar hyn a'r ffordd y maen nhw'n bwriadu rheoli cydweithio rhwng darpariaeth gwyliau ysgol yn fwy effeithiol yn y dyfodol trwy fapio, cyfathrebu amlasiantaeth a sicrhau bod yr arweinydd chwarae a'r arweinydd SHEP yn eistedd ar grwpiau llywio lleol priodol.

**Awdurdod Lleol 3.** Yn 2022-23, cynhaliwyd SHEP mewn <5 ysgol ledled y bwrdeistref hwn. Mae cyllid Gwaith Chwarae yn darparu sesiynau ychwanegol o ddarpariaeth chwarae mynediad agored a chymorth ADY un i un ar ddarpariaeth, ond nid ydynt yn gallu darparu bwyd o'r cyllid hwnnw felly maen nhw'n dibynnu ar bartneriaid allanol fel y gwasanaeth ieuenctid i ddarparu byrbrydau. Yn y fwrdeistref hon, mae prosiectau SHEP a Gwaith Chwarae yn aml yn rhedeg ar yr un pryd yn yr un lleoliad daearyddol, ond nid yw hyn yn cael ei ystyried yn beth drwg gan fod pob cynllun yn denu demograffig gwahanol o blant a theuluoedd.

**Awdurdod Lleol 4.** Mae'r awdurdod lleol hwn wedi gweld twf sylweddol yn eu darpariaeth SHEP dros y tair blynedd diwethaf ac yn darparu sawl model gwahanol gan gynnwys cynradd, uwchradd, cyfrwng Cymraeg ac ysgol arbennig. Yn yr awdurdod lleol hwn, mae SHEP, mentrau a ariennir gan Gwaith Chwarae a darpariaethau gwyliau'r ysgol eraill yn cael eu mapio a'u hamserlennu'n ofalus i atal gorgyffwrdd. Caiff y gwaith hwn ei hwyluso drwy waith partneriaeth agos gyda'r gwasanaeth ieuenctid ac ysgolion sy'n hwyluso aliniad strategol a gweithredol rhwng y cynlluniau gwyliau.

**Awdurdod Lleol 5.** Yn yr awdurdod lleol hwn, yr un unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu SHEP a Gwaith Chwarae ac felly maen nhw wedi'u halinio'n agos. Mae'r cynlluniau'n cael eu rhedeg gan ddefnyddio dull seiliedig ar asedau lle asesir angen lleol a defnyddir y ddwy fenter yn y ffordd fwyaf priodol i wasanaethu'r gymuned. Mae model 'arch-hwb' llwyddiannus yn cael ei redeg lle mae un ysgol yn gwahodd disgyblion agored i niwed o ysgolion lleol cyfagos i fynychu SHEP. Yn ogystal, mae rhai sesiynau chwarae mynediad agored a ariennir gan Gwaith Chwarae yn cael eu rhedeg yn bwrpasol ar yr un pryd ac yn yr un lleoliad â SHEP ar gyfer plant sy'n mynychu ysgolion eraill nad ydynt yn rhedeg SHEP. Eglurodd cynrychiolwyr o awdurdod lleol 5 fod y dull hwn yn golygu bod pob plentyn ar hyd a lled yr ardal leol yn gymwys i gael darpariaeth gwyliau ar ddiwrnod penodol, ni waeth a yw ei ysgol yn bodloni'r maen prawf o fod ag o leiaf 16% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ai peidio.

**Awdurdod Lleol 6.** Mae'r awdurdod lleol hwn yn cynnal darpariaeth SHEP fawr iawn mewn >10 o ysgolion a llawer iawn o ddarpariaeth chwarae mynediad agored. Mae'n rhedeg cymysgedd o fodelau cynradd, uwchradd, pontio, modelau hwb a darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae SHEP yn mynd y tu hwnt i'r maen prawf gofynnol o 12 diwrnod ac fe'i chynhelir yn y fwrdeistref hon trwy gydol gwyliau haf yr ysgol. Mae SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae yn cael eu cydlynu gan yr un unigolyn ac mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhedeg yn gwbl gydweithredol ac nad oes unrhyw ddyblygu. Rhennir asedau ac adnoddau rhwng y rhaglenni, gan gynnwys ceginau, adnoddau, lleoliadau a staff.

## Alinio ar lefel strategol

5.5 Yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid awdurdodau lleol ym mhob ardal astudiaeth achos, cafwyd cydnabyddiaeth mai un o'r prif ffyrdd o sicrhau parhad darpariaeth ac atal dyblygu yw sicrhau bod aliniad ar lefel strategol ymhlith yr holl ddarparwyr.

5.6 Ar ben hynny, canfuwyd bod gorgyffwrdd sylweddol iawn wedi bod yn y ddarpariaeth eleni yn awdurdod lleol 2, rhwng SHEP, Gwaith Chwarae, Fit and Fed [a ariennir gan GemauStryd] a mentrau lleol eraill. Dywedodd un a gafodd ei gyfweld o awdurdod lleol 2 sut roedd y mentrau hyn yn ceisio cyflawni'r un nodau ac y byddai alinio'r rhaglenni hyn ar lefel fwy strategol yn atal dyblygu yn y dyfodol.

5.7 Yn ogystal, ailadroddodd un a gafodd ei gyfweld o awdurdod lleol 2 y pryderon a godwyd ar raddfa genedlaethol gydag amcan 2 sef bod y dyblygu hwn yn creu negeseuon gwrthgyferbyniol trwy gydol y ddarpariaeth gwyliau:

‘Mae yna feini prawf gwahanol iawn, ac o ran Fit and Fed, i fod yn onest, maen nhw'n tueddu i ganolbwyntio ar ochr gorfforol y peth ac efallai dydyn nhw ddim yn hyrwyddo'r negeseuon maeth. Maen nhw'n bwydo'r plant, ond efallai heb ystyried 'ydy hyn yn iach ac yn faethlon? Oes dewisiadau gwell?’. Rwy'n credu bod gwaith ar y gweill i wella hynny, ond dydw i ddim yn meddwl ein bod ni yno eto.’

5.8 Ar ôl myfyrio ar y dyblygu blaenorol hwn yn y ddarpariaeth, mae un awdurdod lleol wedi datblygu cynllun i atal hyn yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo i greu cysylltiadau rhwng eu tîm SHEP a'u tîm Chwarae trwy wneud y defnydd gorau o grwpiau llywio awdurdodau lleol a mapio darpariaeth chwarae er mwyn deall yr hyn sydd ar gael yn lleol.

5.9 Eglurodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld ei fod yn aelod o grŵp llywio cenedlaethol SHEP ers ei sefydlu a nododd nad yw'r grŵp llywio yn ystyried bod digon o gynrychiolaeth o blith arweinwyr chwarae ar grwpiau llywio SHEP ledled Cymru. O ystyried pa mor fuddiol y mae’n ymddangos y mae hyn i nifer o awdurdodau lleol, byddai'n ddefnyddiol i bob grŵp llywio SHEP awdurdod lleol wahodd arweinydd Chwarae yr awdurdod lleol i ddod yn aelod.

## Mapio/amserlennu darpariaeth gwyliau

5.10 Yr ail fecanwaith y mae awdurdodau lleol wedi'i ddefnyddio i reoli'r gorgyffwrdd posibl rhwng darpariaeth gwyliau ysgol yw mapio darpariaeth yn y rhanbarth. Fodd bynnag, awgrymodd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod hyn yn faich dwys o ran adnoddau i'w gydlynu:

> ‘Y peth allweddol, unwaith eto, yw bod yr holl bartneriaid yn gwybod o'r cychwyn cyntaf, ac mae'n hanfodol bod pawb yn gwybod yn y cyfnod hwn nawr rhwng mis Medi a mis Rhagfyr beth yw'r dyddiadau y mae [Bwyd a Hwyl] yn mynd i fod yn rhedeg, dyma'r disgwyliadau, dyma beth rydyn ni'n mynd i fod yn ei wneud.

5.11 Yn ogystal, nododd y rhai o'r awdurdod lleol a gafodd eu cyfweld y gall mapio hefyd olygu bod yna gwell dealltwriaeth o anghenion y rhanbarth ac felly gall gwasanaethau sicrhau bod pob darpariaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Eglurodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld y ffordd y mae'r awdurdod lleol wedi

sefydlu'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y rhaglen Bwyd a Hwyl (addysg, bwyd, chwarae a chwaraeon), ac yna mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r cyllid Gwaith Chwarae i 'lenwi'r bylchau' er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bob plentyn.

5.12 Rhan bwysig o'r broses mapio hon oedd cyfathrebu'r amserlen i rieni a theuluoedd. Gwnaed hyn trwy'r cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau ar-lein ysgolion. Er enghraifft, mae staff mewn un awdurdod lleol wedi defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol a storfa Dewis Cymru[20] i hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth.

## Cyfathrebu amlasiantaeth effeithiol

5.13 Mecanwaith pwysig arall ar gyfer hwyluso'r gwaith o sicrhau cydweithio rhwng darpariaethau oedd cydlynu sianeli cyfathrebu effeithiol gyda phartneriaid amlasiantaeth - yn enwedig rhwng SHEP ac arweinwyr chwarae. Yn ogystal, roedd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld yn annog yr holl awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau posibl o weithio mewn partneriaeth - yn enwedig gyda thimau chwarae - er mwyn lleihau'r baich ar unigolion ac fel mecanwaith amhrisiadwy ar gyfer rhedeg darpariaeth gwyliau ysgol. Roeddent yn annog cysylltu ag, er enghraifft, arweinwyr datblygu, swyddogion bro, arweinwyr datblygu chwarae ac arweinwyr datblygu chwaraeon i leddfu baich y swydd.

5.14 Mewn dwy ardal awdurdod lleol, yr un unigolyn yw'r arweinydd Chwarae a'r arweinydd SHEP. Roedd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld yn teimlo bod y model hwn yn llwyddiannus iawn ac y dylai pob awdurdod lleol gael un unigolyn neu dîm yn gyfrifol am ddarpariaeth gwyliau.

5.15 Disgrifiodd un arall o'r rhai a gafodd eu cyfweld sut roedd gweithio mewn partneriaeth ar lefel awdurdod lleol wedi cael ei rwystro yn ystod y blynyddoedd diwethaf i bob pwrpas oherwydd Covid-19 a'r ffaith bod gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r cyllid adfer wedi cynyddu'r llwyth gwaith ar gyfer gwasanaethau:

> Er ein bod yn awyddus i weithio mewn modd cydgysylltiedig a chydweithredol gyda'r grantiau sydd ar gael, nid yw'r grantiau'n talu am yr adnoddau dynol ychwanegol mwyach. […] Felly, yr hyn sy'n digwydd fel arfer yw ei fod yn cael ei roi ar ddesg rhywun arall i ychwanegu at y pentwr. Felly er bod yr uchelgais yno

[20] Dewis Cymru (2024) Dewis Cymru

a'r angen a'r brwdfrydedd, weithiau diwedd y gân yw capasiti. […] Felly o bosibl mae angen cryfhau'r cysylltiadau hynny ychydig.

## Mabwysiadu dull seiliedig ar asedau

5.16 Yn olaf, y mecanwaith olaf sydd wedi cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gynyddu'r cydweithio sy'n digwydd gyda darpariaeth wyliau yw mabwysiadu dull seiliedig ar asedau. Mae hyn yn cynnwys ystyried ffrydiau cyllido a mentrau nid fel rhaglenni sy'n cystadlu, ond fel asedau cymunedol i gynnig y ddarpariaeth orau a'r cynnig ehangaf posibl i'r plant a'u teuluoedd:

> 'Mae gennym ni reidrwydd moesol fel gweithwyr proffesiynol, rydyn ni am ddarparu'r gorau y gallwn i'n teuluoedd.'

5.17 Mae rhai awdurdodau lleol yn rhannu ac yn cyfuno adnoddau arlwyo pob menter i gynyddu ansawdd ac ehangder y cynnig. Mewn un awdurdod lleol, cynhelir sesiynau chwarae actif yn yr un ysgolion â SHEP, ar yr un pryd. Mae hyn yn sicrhau y gellir darparu bwyd fel rhan o'r prosiect Gwaith Chwarae gan ei fod yn cael ei baratoi yng ngheginau SHEP. Er ei bod yn ymddangos ar y cychwyn bod hwn yn faes amlwg o ddyblygu darpariaeth, awgrymodd un o'r rhai a gafodd eu cyfweld ei fod yn caniatáu i bob plentyn gael mynediad at ddarpariaeth ni waeth a yw ei ysgol yn gymwys ar gyfer SHEP ai peidio.

5.18 Fodd bynnag, nododd un arall a gafodd ei gyfweld, er y gallai dulliau o gyfuno adnoddau arlwyo SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae fel hyn weithio i ardal yng nghanol dinas, efallai na fydd yn ymarferol ar gyfer lleoliadau gwledig gyda nifer cyfyngedig o gynlluniau SHEP.

5.19 Cynhaliwyd y ddarpariaeth gydamserol bwrpasol hon mewn awdurdodau lleol eraill hefyd. Roedd un o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn teimlo na allai'r rhaglen SHEP ar ei phen ei hun ddiwallu anghenion y rhanbarth oherwydd cymhwystra neu gyfyngiadau ar gapasiti:

> 'Ar ddiwedd y dydd, fel rydych ch i wedi dweud, dim ond niferoedd cyfyngedig y gall gymryd rhan yn y cynllun bwyd a hwyl, sy'n golygu bod angen rhywle i fynd ar weddill yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf ac rwy'n credu y gellir rhedeg pethau ochr yn ochr'.

5.20 Yn ogystal, mewn awdurdod lleol arall, dim ond tan 1:30pm y cynhaliwyd SHEP, felly crëwyd cyfleoedd i blant dderbyn darpariaeth 'gofleidiol' trwy fynychu darpariaeth leol arall yn y prynhawn.

5.21 Cynhaliwyd model tebyg o'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae mewn awdurdod lleol arall lle'r oedd plant yn gallu dewis mynychu un ddarpariaeth chwarae mynediad agored yn y bore, cael cinio, ac yna byddent yn cael eu hebrwng ar droed i ddarpariaeth mynediad agored gyfagos yn y prynhawn gan staff chwarae er mwyn creu diwrnod llawn o ddarpariaeth, sy'n gallu bod yn ddefnyddiol iawn i rieni. Y rheswm am y model hwn oedd oherwydd cyfyngiadau ar y ddarpariaeth chwarae mynediad agored sy'n golygu bod angen i oriau gweithredu'r ddarpariaeth fod yn 1 awr 59 munud y sesiwn.

5.22 Mae'r enghreifftiau hyn yn awgrymu, yn hytrach na deall y darpariaethau hyn fel achosion o ddyblygu gwasanaethau, gall y gwahanol leoliadau gwyliau hyn gydfodoli'n thematig. Gall yr amrywiaeth o safleoedd gynnig cyfleoedd gwahanol a diwallu anghenion grwpiau amrywiol o blant. Yr allwedd i atal unrhyw ddyblygu o'r fenter felly yw sicrhau bod yr holl randdeiliaid a chydlynwyr yn cael gwybod am ehangder a map y ddarpariaeth a bod cyfathrebu amlasiantaeth effeithiol yn lleol.

# 6. Canfyddiadau: meysydd polisi eraill a allai effeithio ar y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

6.1 Amcan terfynol yr astudiaeth hon oedd archwilio aliniad SHEP â meysydd polisi eraill yng Nghymru. Archwiliwyd yr amcan hwn mewn dau gyfeiriad.

6.2 Ystyriodd y cyntaf unrhyw feysydd diwygio polisi cyfredol a allai effeithio ar gyflawni SHEP yn y dyfodol. Roedd yr ail yn ystyried unrhyw feysydd polisi sydd wedi alinio â SHEP o ran eu nodau a'u canlyniadau bwriedig, er mwyn nodi unrhyw ddyblygu posibl ac archwilio pa mor angenrheidiol yw SHEP yn y dirwedd bolisi bresennol.

## Effaith

6.3 Roedd yr astudiaeth hon yn archwilio meysydd diwygio polisi cyfredol a allai effeithio ar gyflawni SHEP yn y dyfodol. Y ddau faes yw'r cynnig i ddiwygio'r flwyddyn ysgol a'r newidiadau diweddar i ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau.

6.4 Dechreuodd yr Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol ar 21 Tachwedd 2023 a daeth i ben ar 12 Chwefror 2024. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn pa opsiynau allai weithio'n well i ddysgwyr, staff ysgolion a rhieni. Mae llawer o'r rhesymau y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol yn alinio â nodau SHEP, gan gynnwys atal colli dysgu, mynd i'r afael ag anfantais addysgol a thlodi plant.[21] Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ym mis Mai 2024.[22]

6.5 Pan oedd yr ymchwil hon ar SHEP yn cael ei chynnal, roedd yr ymgynghoriad ar agor. Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn ar SHEP, soniodd y rhai a gafodd eu cyfweld am y newidiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol, a nododd llawer pe bai gwyliau haf yr ysgol yn lleihau i bedair neu bum wythnos, byddai SHEP yn parhau i fod yn gwbl angenrheidiol. Roedd y rhai a holwyd yn unfrydol bron y byddai'r diwygiad hwn yn effeithio ar ddarparu SHEP yn y dyfodol mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, codwyd pryderon y gallai cyfnod gwyliau haf byrrach waethygu'r trafferthion presennol i recriwtio staff i redeg SHEP:

[21] Llywodraeth Cymru (2023) Diwygio'r flwyddyn ysgol: canfyddiad a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol Caerdydd, Llywodraeth Cymru
[22] Llywodraeth Cymru (2024) Crynodeb o'r ymateb: Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol, Caerdydd, Llywodraeth Cymru

> 'Os bydd calendr yr ysgol yn cael ei newid, rwy'n credu y byddai gofyn iddyn nhw neilltuo 12 diwrnod o'r hyn a allai fod yn ddim ond 4 wythnos, neu beth bynnag fydd y newid, yn gofyn llawer'.

6.6 Yn ail, y teimlad oedd y gallai egwyl fyrrach yn yr haf leihau'r graddau y byddai adeiladau ysgol ar gael i'w defnyddio fel lleoliadau ar gyfer SHEP, o gofio bod gwaith ailwampio angenrheidiol yn cael ei gadw fel arfer ar gyfer gwyliau'r haf.

6.7 Yn 2020, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i sicrhau prydau ysgol am ddim i deuluoedd cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol.[23] Fodd bynnag, daeth y ddarpariaeth hon o brydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol i ben ym mis Ebrill 2023, gyda'r penderfyniad yn cael ei wneud ychydig wythnosau cyn cyflwyno SHEP 2023.

6.8 Mewn cyfweliadau, eglurwyd pan wnaed y penderfyniad i ddod â'r ddarpariaeth hon i ben, fe wnaeth cyfathrebiadau a oedd yn cyfleu'r penderfyniad hwn nodi SHEP fel darpariaeth amgen a allai helpu i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Nododd y rhai a gafodd eu cyfweld, fodd bynnag, gan nad yw SHEP yn ddarpariaeth mynediad agored a bod llawer o gynlluniau eisoes wedi'u cynllunio i redeg i'w capasiti llawn pan wnaed y penderfyniad, nid oedd SHEP yn gallu mynd i'r afael â'r golled honno o ran darpariaeth ar unwaith. Awgrymodd rhai a gafodd eu cyfweld ei bod yn anodd rheoli'r nifer fawr o rieni a oedd yn ceisio lle i'w plant ar SHEP. I rai awdurdodau lleol, roedd arweinwyr y cyngor yn gallu cynyddu eu carfannau, ond o ystyried yr ymwybyddiaeth o'r rhaglen, mae CLlLC yn rhagweld mwy o bwysau ar gynghorau oherwydd y golled hon o ran darpariaeth gwyliau a'r cynnydd cyfatebol i'r niferoedd yn ystod haf 2024.

6.9 Awgrymodd y rhai a gafodd eu cyfweld fod y newidiadau i'r prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau wedi cynyddu'r angen i ddarparu bwyd yn ystod darpariaeth gwyliau ysgol fel nod craidd:

> 'Rwy'n credu ein bod ni bob amser wedi ystyried bod darparu bwydydd a phrydau iach yn rhan bwysig iawn o'r rhaglen. Ac rwy'n credu bod dod â thaliadau prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau i ben wedi cryfhau'r farn ei fod yn elfen bwysig o'r rhaglen.'

[23] Llywodraeth Cymru (2023) Ymestyn prydau ysgol am ddim ar gyfer gwyliau Ebrill a Mai

6.10 Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried, o gofio bod SHEP yn gweithredu 175 o gynlluniau ledled Cymru yn ystod haf 2023, na fydd SHEP yn gallu cyrraedd pob plentyn yng Nghymru y mae'r diwygiad hwn i ariannu prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau yn effeithio arnynt.

## Alinio

6.11 Mae'r astudiaeth hon wedi archwilio meysydd o waith polisi cyfredol a allai alinio â nodau a darpariaeth SHEP yn y dyfodol. Amlinellodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld bwysigrwydd deall sut mae gwahanol feysydd polisi yn alinio, er mwyn goresgyn heriau amlddisgyblaeth ac i annog pobl i beidio â gweithio mewn seilo.

6.12 Y meysydd o alinio polisi a archwiliwyd yma oedd ysgolion bro a thlodi plant. Mae datblygu ysgolion bro wedi bod yn uchelgais hirdymor i Lywodraeth Cymru. Fel yr eglurodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld, mae ysgol fro:

> ‘yn dileu ac yn cydnabod unrhyw rwystrau i ddysgu, ac yn ceisio deall holl gyd-destun y plentyn, holl gyd-destun y teulu a'r gymuned. Gyda'r bwriad o gael gwared ar unrhyw beth a allai fod yn atal y plentyn hwnnw rhag ffynnu o ran yr amgylchedd dysgu a'i lesiant gyda'r nod yn y pen draw ein bod yn amlwg yn ceisio mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol’.

6.13 Felly, mae nodau agenda ysgolion bro yn alinio’n llwyr â nodau SHEP. Canolbwyntio ar ddysgu wedi’i gyfoethogi sydd y tu allan i drefn draddodiadol yr ysgol i roi cyfleoedd pwrpasol i blant ryngweithio â'i gilydd yn ystod y gwyliau:

> ‘Felly i fi maen nhw'n alinio’n llwyr, heb os. Byddwn i'n dweud os gallwn ni annog mwy o ysgolion i gynnig hyn, yna mae hynny'n mynd i fod yn beth cadarnhaol iawn, iawn.’

6.14 Fodd bynnag, honnodd un arall a gafodd ei gyfweld, hyd yn oed os yw'r agenda ysgolion bro yn alinio’n agos â nodau SHEP, mae angen hollbwysig am y rhaglen SHEP o hyd. Yn wir, gall y ddwy fenter gefnogi datblygiad y naill a’r llall a datblygu agenda ar y cyd o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn addysg.

6.15 Ar ben hynny, mae'r agenda ysgolion bro yn cyflwyno dau brif fecanwaith ar gyfer cefnogi SHEP a darpariaeth gwyliau ysgol yn ehangach. Y cyntaf yw rôl y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, sydd, fel y trafodwyd yn flaenorol, yn un o'r prif

bartneriaid sy'n helpu i hwyluso SHEP. Yr ail fecanwaith yw'r fenter o ddefnyddio adeiladau a thiroedd yr ysgol y tu allan i'r diwrnod ysgol. Mae'r ddau fecanwaith yn cael eu trafod isod gan y rhai a gafodd eu cyfweld:

> ‘Dyna le gall ysgolion bro wir gefnogi Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf yn ei gwaith ar ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion yn datblygu dulliau ymgysylltu cryf gyda'u teuluoedd ac adnabod eu teuluoedd. Felly maen nhw'n gwybod, efallai pa blant a fyddai'n elwa fwyaf ar fynychu ac oherwydd eu bod wedi datblygu perthynas â'r teuluoedd hynny, efallai y byddan nhw'n gallu cael y sgwrs honno i roi gwybod iddyn nhw am y rhaglen.’

> ‘Erbyn hyn mae gan ysgolion bro weithwyr yn gysylltiedig ag ysgolion ac yn y bôn eu rôl nhw yw pontio'r bwlch hwnnw gyda'r rhai sydd wedi ymddieithrio o'r ysgol. Ac rydyn ni wedi gweld llawer o feysydd lle mae yna gydweithio wedi bod a lle mae darpariaeth gwaith chwarae bellach yn rhedeg ar safle'r ysgol.’

6.16 Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2023 ddiwygiedig. Mae pum amcan y strategaeth hon fel a ganlyn:

- Amcan 1: lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd.
- Amcan 2: creu llwybrau allan o dlodi fel bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial.
- Amcan 3: cefnogi llesiant plant a'u teuluoedd a sicrhau bod gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant arfer eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell.
- Amcan 4: sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi.
- Amcan 5: sicrhau bod gwaith trawslywodraethol effeithiol ar lefel genedlaethol yn arwain at gydweithio cryf ar lefel ranbarthol a lleol.

6.17 Mae'n ymddangos bod yr amcanion hyn i gyd yn alinio i raddau helaeth ag amcanion y fenter SHEP. O ystyried nodau a chanlyniadau bwriedig SHEP, mae

mewn sefyllfa dda i gael ei defnyddio fel cyfrwng i gefnogi'r amcanion hyn a helpu i fynd i'r afael â thlodi plant.

6.18 Ar ben hynny, awgrymodd llawer o'r ymatebion a gafwyd gan blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru fel rhan o waith ymgysylltu yr ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru 2023[24] fod SHEP a darpariaethau gwyliau am ddim eraill yn fentrau sy'n hanfodol i deuluoedd a chymunedau sy'n byw mewn tlodi.

6.19 Yn yr ymchwil hon, er enghraifft, eglurodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld fod plant a phobl ifanc, mewn gwaith ymgysylltu a wnaed, wedi dweud nad oedd gweithgareddau fel chwarae a chwaraeon yn hygyrch yn ariannol oherwydd costau, a'u bod wedi sôn am yr anghydraddoldeb o gael mynediad at y gweithgareddau hyn yn yr un ffordd â'u cyfoedion.

6.20 Roedd effeithiau tlodi bwyd ar blant a phobl ifanc hefyd yn glir i'w gweld yn yr adborth ymgysylltu. Mae SHEP a mentrau gwyliau ysgol am ddim eraill yn hanfodol i bobl ifanc y mae tlodi bwyd, yn ogystal â thlodi o ran profiadau a dyheadau, yn effeithio arnynt. Dylid ystyried y negeseuon gan bobl ifanc drwy'r gwaith ymgysylltu hwn a drafodwyd gan y rhai a gafodd eu cyfweld ochr yn ochr ag unrhyw waith datblygu’r rhaglen SHEP yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi plant yn parhau i fod yn nod craidd y fenter.

[24] Llywodraeth Cymru (2023) Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft 2023 Caerdydd, Llywodraeth Cymru

# 7. Casgliadau

7.1 Dechreuodd SHEP fel rhaglen addysgol ac er bod hynny'n parhau i fod yn nod craidd, gyda'r argyfwng costau byw a phwysau ariannol arall, mae mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau wedi dod yn nod blaenoriaeth.

7.2 Ar ben hynny, mae SHEP yn ymddangos yn fwy angenrheidiol yn y dirwedd bolisi bresennol na phan gafodd ei datblygu'n wreiddiol. Ar hyn o bryd, mae lefelau uwch fyth o dlodi plant, mae'r ddarpariaeth o daliadau prydau ysgol am yn ystod y gwyliau wedi dod i ben, a daeth rhaglenni sy'n gysylltiedig â chyllid adfer Covid-19 – Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, i ben yn ystod gwanwyn 2022.

7.3 Ar lefel genedlaethol, mae'r data cyfweld a gasglwyd gan randdeiliaid mewnol ac allanol yn awgrymu bod lefel uchel o alinio rhwng SHEP a phrosiectau a ariennir gan Gwaith Chwarae. Mae'r rhaglenni'n rhannu llawer o nodau, canlyniadau a fwriadwyd, adnoddau a phartneriaethau.

7.4 Fodd bynnag, mae SHEP a'r prosiectau a ariennir gan Gwaith Chwarae yn wahanol mewn sawl elfen o'u darpariaeth, sy'n golygu eu bod yn aml yn cael eu defnyddio i ddarparu darpariaeth ategol sydd o fudd i wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc. Yn benodol, mae'r broses o weithredu cyllid Gwaith Chwarae yn wahanol iawn i'r broses ar gyfer gweithredu cyllid SHEP. Mae'r olaf yn gynllun penodol, rhagnodol a ddarperir mewn lleoliadau ysgol yn ystod gwyliau haf yr ysgol, yn seiliedig ar feini prawf penodol gyda hyfforddiant canolog ac mae'n cael ei ddarparu'n gyson ledled Cymru. I'r gwrthwyneb, mae cyllid Gwaith Chwarae yn gyllid grant hyblyg sydd ar gael i ymestyn darpariaeth chwarae mynediad agored sydd eisoes yn bodoli, neu i ariannu darpariaeth chwarae mynediad agored newydd. Mae ei weithredu'n dibynnu ar yr angen yn lleol, gyda hwnnw'n cael ei bennu gan asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae awdurdodau lleol.

7.5 Nodwyd sawl rhwystr o ran twf a darpariaeth SHEP gan gynnwys materion yn ymwneud â chael cefnogaeth gan ysgolion lle nad yw ysgolion cymwys wedi gwneud cais am gyllid SHEP. Nid yw'r rhesymau am hyn yn hysbys. Rhwystr arall yw diffyg hyblygrwydd ynghylch y lleoliad ar gyfer SHEP, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle nad yw ysgol ar gael am ba reswm bynnag. Mae heriau eraill yn cynnwys sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio, gallu staff i gwblhau hyfforddiant

gorfodol a diffyg rhwydweithiau neu gysylltiadau rhwng arweinwyr cyngor SHEP ac Arweinydd Chwarae'r awdurdod lleol. Byddai cael ymrwymiad cyllid parhaus yn rhoi sicrwydd a hyder i bartneriaid a chydlynwyr y cynllun i gynnwys SHEP yn eu cynlluniau. Gall hwyluso'r gwaith o werthuso effeithiau tymor hwy SHEP hefyd.

7.6 Mae CLILC wedi gweithio i ganfod i atebion i rai o'r problemau hyn. Mae'r atebion hyn wedi cynnwys creu rôl Swyddog Cymorth Cynorthwyol, cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd i'r rhaglen ac ail-ddylunio’r ffurflen gais ar gyfer ysgolion i fod yn fwy cryno a hawdd ei defnyddio.

7.7 Ar lefel genedlaethol, mae SHEP yn debyg i raglenni eraill nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, fel GemauStryd a gwersylloedd Fit, Fed and Fun URC. Mae CLILC wedi ymdrechu i fynd i'r afael â'r mater hwn o ddyblygu drwy gynnwys URC fel partner Cenedlaethol SHEP, er bod menter 'Fit and Fed' GemauStryd yn dal i roi elfen o orgyffwrdd posibl.

7.8 Yn ogystal, er ei fod y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn, nodwyd y gallai fod angen i SHEP ystyried ei heffaith ar y sector gofal plant y tu allan i oriau ysgol – darpariaeth gofal plant sy'n cael ei darparu mewn lleoliadau ysgol yn ystod gwyliau'r ysgol, Clybiau Plant Cymru Kids' Club, yn bennaf. Er mai darpariaeth am dâl yw hon, mae'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei bod wedi'i chynnwys yng Nghonsortiwm Cwlwm. Bydd y maes alinio hwn yn ystyriaeth bwysicach os bydd SHEP yn parhau i dyfu ac ehangu ledled Cymru.

7.9 Ar lefel leol, o'r ardaloedd astudiaeth achos a archwiliwyd yn ystod yr astudiaeth hon, byddai'n ymddangos bod potensial i ddarpariaethau sy'n cael eu rhedeg fel rhan o Gwaith Chwarae a SHEP ddyblygu: gorgyffwrdd yn thematig, yn ddaearyddol ac ar yr un pryd. Mae mapio darpariaeth gwyliau ysgol yn elfen allweddol y mae awdurdodau lleol yn ei defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth. Oherwydd y gwahaniaethau yn y darpariaethau SHEP a'r darpariaethau a ariennir gan Gwaith Chwarae, defnyddir y ddwy raglen hyn yn aml i ddarparu darpariaeth ategol sydd o fudd i wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc (e.e. o ran oedran, rhywedd neu grŵp ethnig) yn aml mewn gwahanol leoliadau daearyddol, a/neu mewn gwahanol safleoedd o fewn ardal leol. Felly, er y gall y rhaglenni hyn orgyffwrdd o ran nod, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu eu bod

mewn perygl o ddyblygu. Ar ben hynny, y mecanweithiau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cydweithio yw alinio strategol, mapio, gwaith amlasiantaeth a mabwysiadu dull seiliedig ar asedau.

7.10 Mae'r prosiect hwn wedi archwilio dau faes cyfredol o ddiwygio polisi a allai effeithio ar y gwaith o ddarparu'r rhaglen yn y dyfodol. Y meysydd hyn yw'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol a'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim. Dywedodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol y gallai diwygiadau arfaethedig effeithio ar ddarpariaeth SHEP yn y dyfodol oherwydd y mater o recriwtio staff. O ran y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'n hanfodol deall na all SHEP gyrraedd pob plentyn yng Nghymru y mae'r newidiadau i'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn effeithio arnynt. Nid yw’r newidiadau hyn ond wedi cynyddu'r angen i SHEP ddarparu bwyd. Dylid ystyried yn ofalus y datblygiadau yn y ddau faes wrth ail-werthuso cyflwyno SHEP yn y dyfodol.

7.11 Mae'r prosiect hwn wedi archwilio meysydd polisi y mae eu hamcanion yn alinio ag amcanion SHEP gan gynnwys ysgolion bro a thlodi plant. Er bod y meysydd polisi hyn yn ceisio mynd i'r afael â materion tebyg sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc dan anfantais yng Nghymru, nid ydynt yn peri unrhyw ddyblygu ac nid yw un yn negyddu’r angen am y llall. I'r gwrthwyneb, mae gan y meysydd polisi hyn sy'n alinio berthynas symbiotig â'r rhaglen SHEP, lle gall agweddau ar y polisïau hyn sy'n alinio helpu i hwyluso'r fenter SHEP, a gellir defnyddio'r fenter SHEP fel cyfrwng i hyrwyddo ymhellach y gwaith o weithredu’r meysydd polisi ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru a’u heffaith.

# 8. Argymhellion

**Argymhelliad 1:** Dylai CLILC ystyried ei gwneud yn ofyniad hanfodol i awdurdodau lleol fapio darpariaeth gwyliau ysgol wrth gwblhau'r ffurflen gais SHEP. Byddai hyn yn helpu i atal dyblygu'r ddarpariaeth.

**Argymhelliad 2:** Yn asesiad yr awdurdodau lleol o ddyblygu posibl, ystyried asesiad sy'n archwilio nid yn unig nodau a chanlyniadau pob darpariaeth mewn ardal leol, ond hefyd elfennau eraill o bob darpariaeth fel demograffeg buddiolwyr a lleoliad y safle.

**Argymhelliad 3:** O ystyried yr heriau o ran cael staff i gymryd rhan yn y cwrs Sgiliau Maeth am Oes, mae CLILC wedi cyflwyno hyblygrwydd yn y gofyniad hwn yn ddiweddar. Lle mae adnoddau'n caniatáu, argymhellir monitro unrhyw rwystrau parhaus o ran cyfranogiad staff ar y cwrs hwn a weithred i liniaru'r rhain.

**Argymhelliad 4:** Ymchwil bellach i archwilio modelau SHEP o wledydd eraill y DU yn ogystal ag yn rhyngwladol, lle mae gan y flwyddyn ysgol strwythur gwahanol i'r un yng Nghymru. Un dull arfaethedig fyddai dadansoddi modelau awdurdodau lleol gwahanol, gan gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o arferion gorau.

## 9. Cyfeiriadau


Ymchwil Arad (2023). Gwerthusiad o Bwyd a Hwyl Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf: Adroddiad Effaith.

Braun, V. and Clarke, V. (2006). Using Thematic Analysis in Psychology. Qualitative Research in Psychology, 3, 77-101.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2018). Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP): Model Rhesymeg.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2020). Gwerthusiad o'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) 2019.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2024). Adroddiad Gwerthuso Bwyd a Hwyl 2023.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2024). 'Bwyd a Hwyl' Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf'.

Dewis Cymru (2024). Dewis Cymru

GemauStryd (2022). Wales Fit and Fed Report 2022

Llywodraeth Cymru (2020). Llwgu yn ystod y gwyliau: peilot gwaith chwarae Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021). Haf o Hwyl Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022). Datganiad Ysgrifenedig: £7m Haf o Hwyl 2022

Llywodraeth Cymru (2022). Diwygio'r flwyddyn ysgol

Llywodraeth Cymru (2022). Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Llawlyfr. Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022). Gwerthusiad o Gaeaf Llawn Lles Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023). Diwygio'r flwyddyn ysgol: canfyddiad a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023). Gwerthusiad o Gaeaf Llawn Lles Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023). Gwerthuso Treialu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023). Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae: Canllawiau i awdurdodau Lleol 2023-4, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023). Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru 2023 Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023). Ymestyn prydau ysgol am ddim ar gyfer gwyliau Ebrill a Mai

Llywodraeth Cymru (2023). Diwygio'r flwyddyn ysgol: canfyddiad a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol. Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024). Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024). Crynodeb o'r ymateb: Strwythur y flwyddyn ysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

# Atodiadau

## Atodiad A: Canllawiau cyfweld

Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad ymchwil hwn fel rhan o'n gwaith i archwilio Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP).

Nod yr ymchwil hon yw adolygu sut mae SHEP yn alinio a darpariaethau gwyliau ysgol eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fel y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae (Gwaith Chwarae), a sut gallent alinio yn y dyfodol. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn llywio cyfeiriad polisi ar gyfer darpariaeth gwyliau ysgol, gyda'r bwriad o edrych ar integreiddio neu alinio pellach - yn enwedig cyfleoedd i sicrhau'r cydweithio mwyaf posibl ar draws darpariaeth gwyliau ysgol.

Yn ogystal, nod y gwaith ymchwil hwn yw archwilio sut y gall darpariaeth SHEP gael ei heffeithio gan ddiwygiadau polisi arfaethedig neu bosibl, gan gynnwys diwygio'r flwyddyn ysgol a dod â'r cynllun o ddarparu taliadau prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau i ben.

Mae'r canllaw pwnc canlynol yn amlinellu'r cwestiynau penodol a fydd yn cael eu trafod yn ystod y cyfweliad a sut maen nhw'n berthnasol i bob un o'r amcanion ymchwil.

Mae'r crynodebau o dan bob set o gwestiynau yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd mewn cyfarfodydd cyn y cyfweliad ac yn cynrychioli fy nealltwriaeth ar hyn o bryd. Eu bwriad yw gwneud y mwyaf o'n hamser a llywio'r sgwrs, ond mae croeso i chi gywiro'r awgrymiadau hyn neu ehangu ar y pwyntiau a wneir yn ystod y cyfweliad.

### Amcan 1: Archwilio i ba raddau mae SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae yn alinio

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at arweinwyr polisi SHEP a Gwaith Chwarae a swyddogion ymchwil sy'n ymwneud ag ymchwil/gwerthuso SHEP a Gwaith Chwarae. Bydd y cwestiynau ymchwil yn cael eu teilwra ymhellach ar gyfer unigolion penodol ond byddant yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol:

1. Beth oedd nodau cychwynnol mentrau SHEP/Gwaith Chwarae? Sut mae'r nodau cychwynnol hyn wedi esblygu, os o gwbl, dros amser?
2. Pa rai o'r nodau hyn yw'r pwysicaf, neu'n feysydd blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, wrth symud ymlaen?
3. Sut mae'r mentrau SHEP/Gwaith Chwarae yn cael eu gweithredu yng Nghymru?
4. Pa adnoddau sy’n angenrheidiol i redeg y mentrau SHEP/Gwaith Chwarae?
5. Pa bartneriaethau sy’n angenrheidiol i redeg y mentrau SHEP/Gwaith Chwarae?

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at gydlynwyr CLILC ac arweinwyr SHEP/Gwaith Chwarae awdurdodau lleol:

1. Beth yw amcanion y fenter SHEP/Gwaith Chwarae? Sut mae'r amcanion hyn wedi esblygu dros amser?
2. Pa un o'r amcanion hyn sydd bwysicaf/fwyaf perthnasol yn eich barn chi.
3. Pa nodau sy'n anoddach i'w cyflawni (os o gwbl) a pham?
4. Pa agweddau ar SHEP sy'n arbennig o lwyddiannus ac ym mha ffordd?
5. A oedd unrhyw rwystrau o ran rhedeg y rhaglen SHEP/Gwaith Chwarae yn eich ardal chi?
6. Pa alluogwyr sy'n cynorthwyo i redeg y rhaglen SHEP/Gwaith Chwarae yn eich ardal? (e.e. partneriaethau ac ati)
7. Sut mae'r fenter SHEP/Gwaith Chwarae yn cael ei gweithredu yng Nghymru/eich Awdurdod Lleol?
8. Pa adnoddau sy'n angenrheidiol i redeg SHEP/Gwaith Chwarae yng Nghymru/eich Awdurdod Lleol chi?
9. Pa bartneriaethau sy'n cael eu defnyddio i redeg SHEP/Gwaith Chwarae yng Nghymru/eich Awdurdod Lleol?
10. Sut fyddech chi'n disgrifio lefel cyfranogiad ac ymgysylltu â'r cynllun?
11. Sut fyddech chi'n disgrifio lefel cyrhaeddiad y cynllun?

**Amcan 2: Nodi unrhyw feysydd o orgyffwrdd neu ddyblygu rhwng darpariaethau gwyliau ysgol a ariennir gan Lywodraeth Cymru**

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at gydlynwyr cenedlaethol SHEP/Gwaith Chwarae, arweinwyr polisi ar gyfer SHEP a Gwaith Chwarae a swyddogion ymchwil sy'n ymwneud ag ymchwil/gwerthuso SHEP a Gwaith Chwarae:

1. Yn eich profiad chi, a oes meysydd o orgyffwrdd rhwng SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae? Os felly, ble mae'r meysydd hyn o orgyffwrdd?
2. Pa argymhellion fyddech chi'n eu gwneud er mwyn darparu mwy o barhad o ran darpariaeth gwyliau ysgol yng Nghymru ac i osgoi dyblygu?

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at arweinwyr awdurdodau lleol SHEP/Gwaith Chwarae:.

1. Yn eich Awdurdod Lleol chi, a oes meysydd o orgyffwrdd rhwng SHEP a'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae? Os felly, ble mae'r meysydd hyn o orgyffwrdd?
2. Pa raglenni lleol eraill ydych chi'n ymwybodol ohonynt yn eich ardal sydd â darpariaeth gwyliau'r ysgol?
3. A yw'r meysydd hyn o orgyffwrdd wedi achosi unrhyw broblemau o ran rhedeg darpariaeth gwyliau'r ysgol?

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at arweinwyr polisi ar draws y meysydd canlynol – gwaith ieuenctid, tlodi plant, addysg, iechyd/iechyd meddwl, diwygio'r flwyddyn ysgol. Bydd y cwestiynau ymchwil yn cael eu teilwra ymhellach ar gyfer unigolion penodol ond byddant yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol:

1. Yn eich maes gwaith, pa bolisïau/mentrau sydd ar waith i gefnogi dysgwyr dan anfantais dros gyfnodau gwyliau'r ysgol?
2. Sut mae'r mentrau hyn yn alinio â Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf? Ydyn nhw'n gorgyffwrdd mewn unrhyw ffordd?

**Amcan 3: Nodi cyfleoedd i gynyddu cydweithio ar ddarpariaeth gwyliau'r ysgol yn lleol, h.y. o fewn ac ar draws awdurdodau lleol a/neu gan ddarparwyr darpariaeth**

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at gydlynwyr cenedlaethol SHEP/Gwaith Chwarae, arweinwyr polisi ar gyfer SHEP a Gwaith Chwarae a swyddogion ymchwil sy'n ymwneud ag ymchwil/gwerthuso SHEP a Gwaith Chwarae:

1. Pa argymhellion fyddech chi'n eu gwneud er mwyn darparu mwy o barhad o ran darpariaeth gwyliau'r ysgol yng Nghymru ac i osgoi dyblygu?
2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau yng Nghymru sy'n cydweithio â chynlluniau eraill yn eu hardal?

*Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at arweinwyr awdurdodau lleol SHEP/Gwaith Chwarae mewn ardaloedd astudiaeth achos dethol lle mae cynlluniau SHEP a Gwaith Chwarae yn cydweithio er mwyn lleihau gorgyffwrdd:*

1. Pa argymhellion fyddech chi'n eu gwneud er mwyn darparu mwy o barhad o ran darpariaeth gwyliau'r ysgol yng Nghymru ac i osgoi dyblygu?
2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau yn eich Awdurdod Lleol sy'n cydweithio â chynlluniau eraill yn eu hardal?
3. Pa strategaethau (os o gwbl) a ddefnyddiwyd ganddynt i gydweithio â chynlluniau eraill?
4. Pa mor llwyddiannus oedd y strategaethau hyn? A gafwyd unrhyw broblemau?

**Amcan 4: Sut y gallai darpariaeth SHEP gael ei heffeithio gan feysydd polisi eraill yng Nghymru e.e. diwygio'r flwyddyn ysgol a dod a darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau i ben?**

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at arweinwyr polisi a swyddogion ymchwil sy'n ymwneud â gwaith i ddiwygio'r flwyddyn ysgol:

1. Beth yw'r newidiadau arfaethedig i'r calendr ysgol yng Nghymru?
2. Sut y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol effeithio ar yr angen am SHEP a'r capasiti ar ei chyfer?
3. Sut y gallai unrhyw weithredu cenedlaethol o'r treial cyfoethogi addysgol yn y dyfodol effeithio ar yr angen am SHEP a'r capasiti ar ei chyfer?

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at arweinwyr polisi a swyddogion ymchwil sy'n ymwneud â diwygio'r ddarpariaeth o brydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau.

1. Sut y gallai'r angen am SHEP a'r capasiti ar ei chyfer gael eu heffeithio yn dilyn rhoi'r gorau yn ddiweddar i'r ddarpariaeth o brydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau’r haf?
2. Faint o ddisgyblion a theuluoedd y gwnaeth y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r haf eu cyrraedd? (Cymharwch hyn drwy ymchwil desg â nifer y bobl ifanc sy'n cael eu bwydo drwy'r cynllun SHEP.

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at arweinwyr polisi ar draws y meysydd canlynol - gwaith ieuenctid, gofal plant a chwarae, tlodi plant, addysg, iechyd/iechyd meddwl. Bydd y cwestiynau ymchwil yn cael eu teilwra ymhellach ar gyfer unigolion penodol ond byddant yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol: Yn eich maes gwaith chi, a oes unrhyw feysydd eraill o ddiwygio polisi a allai fod ag unrhyw oblygiadau i'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

Dylid cyfeirio'r cwestiynau canlynol at gydlynwyr cenedlaethol ac awdurdodau lleol SHEP/Gwaith Chwarae, arweinwyr polisi ar gyfer SHEP a Gwaith Chwarae:

1. Sut y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol effeithio ar yr angen am SHEP a'r capasiti ar ei chyfer?
2. Sut y gallai'r angen am SHEP a'r capasiti ar ei chyfer gael eu heffeithio yn dilyn rhoi'r gorau yn ddiweddar i'r ddarpariaeth o brydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau’r haf?

**Atodiad B: Ffurflen gais Bwyd a Hwyl 2023**

Mae Bwyd a Hwyl wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.  I dderbyn cyllid ôl-weithredol, mae'n rhaid i Grwpiau Llywio Lleol:

- Ddarparu elfennau craidd Bwyd a Hwyl gan ddefnyddio'r brandio a gymeradwywyd. Gellir staffio cynlluniau gan ddefnyddio personél cymwys ac addas o feysydd gwasanaeth yr ysgol neu'r awdurdod lleol, partneriaid darparu, asiantaethau a gwirfoddolwyr.  Sicrhau bod proses ddiogelu ddigonol ar waith.
- Dim ond targedu ysgolion gyda PYD o 16% neu fwy ac yn gallu darparu prydau poeth ac oer, gofod bwyta o faint addas, ardal chwarae dan do a gofod awyr agored, toiledau hygyrch ac ystafelloedd dosbarth.   Gall ysgolion weithio mewn clystyrau lle bo'n ymarferol neu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n deillio o waith cynnal a chadw ar safleoedd ysgol.
- Sicrhau bod Timau Arwain Ysgolion yn ymwneud â chynllunio a darparu Bwyd a Hwyl yn eu hysgol neu glwstwr / hwb.
- Gweithredu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Bwyd a Hwyl, sy'n archwilio cydymffurfiaeth gyda'r meini prawf hanfodol (Atodiad 1).
- Cynnal gwerthusiad o bob cynllun (gwybodaeth bellach i ddilyn).

**Adran 1- cofrestru grŵp llywio lleol**

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| Sawl carfan o 40 o blant y gall eich Grŵp Llywio Lleol ymrwymo i gynnig Bwyd a Hwyl iddynt yn 2023?  (Bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu hyd at uchafswm o £11,000 fesul carfan o 40, ac unrhyw gyllid ychwanegol tuag at gostau cydlynu'r cyngor a chostau ADY/ACEY) Mae costau ADY ar gyfer staff darparu ychwanegol ar gyfer y diwrnodau y cynhelir Bwyd a Hwyl yn unig. | |
| Sawl cynllun fydd hwn?  Nodwch mai cynllun yw'r lleoliad ysgol lle bydd Bwyd a Hwyl yn digwydd a gall unrhyw nifer o garfanau o 40 o blant fod mewn un ysgol. | |

| Aelod Hanfodol o'r Grŵp Llywio Lleol | Enw a theitl swydd | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|
| Cynrychiolydd arlwyo y cyngor /  ysgol | | |
| Cynrychiolydd gweithgarwch corfforol / chwaraeon y cyngor / ysgol | | |

| | | |
|---|---|---|
| Cynrychiolydd dieteteg iechyd cyhoeddus y bwrdd iechyd lleol | | |
| Cynrychiolydd Rhwydwaith Cynllun Ysgolion Iach Lleol Cymru | | |
| Cynrychiolydd addysg y cyngor / ysgol | | |
| Cynrychiolydd y cyngor sy'n gyfrifol am ddarpariaeth dros y gwyliau (os yn berthnasol) | | |

**Adran 2 - cofrestru ysgol**

Mae'n rhaid i Arweinydd Rhaglen Bwyd a Hwyl y Cyngor lenwi'r adran hon a nodi'r unigolyn ym mhob ysgol sy'n gyfrifol am drefniadau cynllunio a darparu Bwyd a Hwyl, gyda'r ymrwymiad i ddarparu elfennau craidd Bwyd a Hwyl yn unol â'r meini prawf hanfodol a'r argymhellion. Dylid recriwtio Cydlynwyr Bwyd a Hwyl Ysgolion cyn 10 Mawrth 2023 er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer hyfforddiant. Dyblygwch y dudalen hon os oes angen cynnwys mwy o gynlluniau.

| Enw'r ysgol, rhif ffôn a chod post | Nifer y diwrnodau (isaf swm o 12 diwrnod) | Cyfrwng Cymraeg/ Saesneg / Dwyieithog? I/N | Nifer y plant sy'n cael eu targedu | Math o Ysgol (Cynradd / Uwchradd/ Canol neu Arbennig) | % Prydau Ysgol Am Ddim | Enw a chyfeiriad e-bost y person ym mhob ysgol sy'n gyfrifol am drefniadau cynllunio a darparu Bwyd a Hwyl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

**Atodiad 1 - meini prawf hanfodol ac argymhellion ar gyfer cynlluniau**

Mae'r meini prawf hanfodol a'r argymhellion canlynol wedi'u sefydlu i gynnal uniondeb ethos ac elfennau craidd Bwyd a Hwyl.

Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Bwyd a Hwyl yw uchafswm o £11,000 fesul carfan o 40 o blant (mae hyblygrwydd ar gyfer carfannau pellach / hanner carfan).

Yn ogystal â hyn, gall Awdurdodau Lleol ddewis un o'r canlynol i gefnogi costau gweinyddol yr awdurdod lleol:

1. Cyfraniad o hyd at £1,000 fesul carfan ar gyfer costau awdurdod lleol ar gyfer gweinyddu a chydlynu, neu
2. Gall cynghorau wneud cais am gyllid ar gyfer swydd swyddog gweinyddol a chefnogi i weithio gydag arweinwyr y cyngor. Bydd oriau a chyllid y swydd yn dibynnu ar nifer yr ysgolion cymwys yn yr awdurdod hwnnw yn unol â'r tabl isod. Bydd rhagor o gyngor a gwybodaeth ar gael gan CLlLC.

| Oriau'r wythnos | Cyflog+ costau (30%) | Cyflog |
|---|---|---|
| 37 | £34,533.33 | £26,564.10 |
| 22.5 | £21,000.00 | £16,153.85 |
| 10 | £9,333.33 | £7,179.49 |

Gall cynlluniau hawlio cyllid ychwanegol ar gyfer costau ADY / ACEY ar gyfer staff darparu ychwanegol ar gyfer y diwrnodau y cynhelir Bwyd a Hwyl yn unig. Rhaid i unrhyw gostau ychwanegol a geir gael eu hariannu neu eu darparu 'mewn nwyddau neu wasanaethau' gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ysgolion y rhaglen ac/neu asiantaethau partner.

**Meini prawf hanfodol - (elfennau craidd mewn coch)**

| | |
|---|---|
| 1 | Sicrhau bod aelod o Uwch Dîm Arwain yr ysgol yn ymwneud â chynllunio a darparu Bwyd a Hwyl yn eu hysgol neu glwstwr / hwb. |
| 2 | Darparu Bwyd a Hwyl am ddim llai na 12 diwrnod dros o leiaf 3 wythnos yn olynol o wyliau haf yr ysgol. Dylid annog yr un garfan o 40 o blant i fynychu bob dydd.<br>Yn dibynnu ar y galw, efallai y gellir ariannu diwrnodau ychwanegol ar sail pro rata gyda'r potensial o ddarparu dros y gwyliau haf i gyd. |
| 3 | Anogir recriwtio staff yr ysgol i rolau Cydlynydd a Chymhorthydd (Cymorthyddion) Bwyd a Hwyl yn y lle cyntaf, gan gytuno ar rolau a chyfrifoldebau. Argymhellir rôl Ddiogelu ychwanegol i ymdrin â materion bugeiliol a datgeliadau posibl. Gall cynlluniau gyflogi partneriaid i gefnogi staff yr ysgol wrth ddarparu Bwyd a Hwyl ar yr amod bod yr ysgol yn 'berchen' ar y cynllun. |

| | |
|---|---|
| 4 | Trefnu Amserlen o Weithgareddau ar gyfer pob cynllun gan sicrhau bod yr holl elfennau craidd yn cael eu cynnwys a rhoi ystyriaeth i'r 5 Awgrym Llesol drwy'r cyfan. Cyflwyno'r Amserlen o Weithgareddau i'ch arweinydd yn y cyngor neu CLILC erbyn 23 Mehefin 2023. Mae pecyn gwaith 'Partneriaid Cenedlaethol' ar gael ar yr hwb gwybodaeth gyda manylion cynigion a chysylltiadau lleol. |
| 5 | Darparu brecwast a chinio ar gyfer pob diwrnod y mae'r cynllun yn weithredol. Paratoi Bwydlen Cinio 12 Diwrnod yn unol â Gofynion Bwydlen Bwyd a Hwyl a'r Polisi Bwyd. Bydd y rhain ar gael i chi a gellir cael mynediad atynt drwy'r Hwb Gwybodaeth. Dylid cyflwyno'r fwydlen i CLILC erbyn 23 Mehefin 2023 i'w chymeradwyo. |
| 6 | Cyfathrebu negeseuon iechyd cyson, gan sicrhau bod yr holl aelodau o staff a phartneriaid yn ymwybodol o 'ethos' Bwyd a Hwyl, ac nad ydynt yn tanseilio'r ethos hwnnw. Ni ddylid defnyddio adnoddau na gwobrau fel bwyd a diod sy'n llawn siwgr, braster neu halen (gan gynnwys brandio gweithgynhyrchwyr i hyrwyddo'r cynnyrch hyn). Peidiwch â chaniatáu i becynnau bwyd ddod i mewn o'ch cartref. |
| 7 | Mae'n rhaid i gynlluniau Bwyd a Hwyl ddefnyddio enw a logo Bwyd a Hwyl / Food and Fun, yn unol â chanllawiau Brand Bwyd a Hwyl. Mae dolen i ffilm wedi'i animeiddio o Fwyd a Hwyl 2022, ynghyd ag adroddiadau'r blynyddoedd blaenorol ar gael ar ein gwefan (dolen isod). |
| 8 | Llunio Ffolder Bwyd a Hwyl yr ysgol, a ddylai gynnwys copïau o bolisïau, gweithdrefnau, a thystysgrifau hyfforddiant staff perthnasol. Mae dogfen Ganllaw Ffolder Bwyd a Hwyl ar gael. Gall ysgolion a Grwpiau Llywio Lleol ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Bwyd a Hwyl fel rhestr wirio i gynorthwyo â'r broses gynllunio. |
| 9 | Cynnig 'gweithgaredd pryd teuluol' i rieni / gofalwyr a brodyr a chwiorydd o leiaf unwaith yr wythnos. Mae canllawiau pellach ac enghreifftiau ar gael gan CLILC. |
| 10 | Darparu Sesiynau Addysg Maetheg Bwyd a Hwyl Cymru Gyfan sy'n briodol i oedran ac sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys gweithgareddau ychwanegol sy'n ymarfer llythrennedd, llafaredd a rhifedd. Mae'n rhaid i staff Bwyd a Hwyl sydd ag achrediad Sgiliau Maetheg am Oes Lefel 2 Sgiliau Bwyd Cymunedol a Maetheg ddarparu'r rhain. Darperir hyfforddiant, y gellir ei ddefnyddio gydol y flwyddyn gydag uchafswm o 2 aelod o staff fesul carfan, cefnogaeth ac adnoddau gan Ddietegwyr Iechyd Cyhoeddus. Gall cynlluniau ystyried defnyddio hyfforddwr 'symudol' i ddarparu |

| | |
|---|---|
| | sesiynau Maeth i glystyrau o hyd at 4 ysgol mewn cylchdro dros gyfnod y rhaglen. Cysylltwch â CLILC am arweiniad pellach os ydych chi am ddefnyddio'r opsiwn hwn.<br>Dylid ystyried cynllunio rhag argyfwng rhag ofn y bydd salwch neu absenoldeb. |
| 11 | Darparu isafswm o un awr y dydd o weithgarwch corfforol â strwythur ac sy'n addas i oedran gan gyfeirio at gyfleoedd pellach yn lleol. |
| 12 | Darparu gweithgareddau cyfoethogi sy'n briodol i oedran sy'n rhoi cyfle i blant a theuluoedd ymgysylltu â gweithgareddau sy'n hwyl, yn gymdeithasol ac yn addysgol. |
| 13 | Dilyn ethos, polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn unol â'r hyn a wneir yn ystod y tymor. Sicrhau bod yswiriant priodol yn ei le o ran darpariaeth y tu hwnt i dymor yr ysgol ac ar gyfer darpariaeth gwasanaethau a gweithgareddau gan asiantaethau allanol. |
| 14 | Cyflwyno cofnodion cynllun o gostau Bwyd a Hwyl cyn gynted â phosibl ar ôl yr haf i'ch Arweinydd Rhaglen Bwyd a Hwyl yn y Cyngor. Dylid cynnwys yr holl gostau gwirioneddol yn sgil cynllunio, darparu a gwerthuso Bwyd a Hwyl. Byddwch yn ystyriol o gyllid-dwbl posibl ar gyfer costau staffio (e.e. hawlio oriau cytundebol sydd eisoes wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru) |
| 15 | Cofnodi a chyflwyno data presenoldeb, cydymffurfio â sicrwydd ansawdd eich awdurdod lleol, a dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer gwerthusiad cenedlaethol y rhaglen. |

**Adnoddau a dogfennau eraill i gynorthwyo**

| | |
|---|---|
| Pecyn Gwaith Partneriaid Cenedlaethol | Cyfeirlyfr o bartneriaid sy'n gallu darparu sesiynau gweithgarwch corfforol neu gyfoethogi ar draws y wlad. |
| Taflen (ar gyfer rhieni) | Taflen yn egluro beth yw Bwyd a Hwyl, gall y cynlluniau addasu'r rhain gyda'u manylion cyswllt eu hunain. |
| Templed | Templed A4 (ar gael ar fformat portread neu dirlun) gyda brandio Bwyd a Hwyl er mwyn creu dogfennau |
| Fframwaith Sicrwydd Ansawdd | Mae'r fframwaith sicrwydd ansawdd yn gweithredu fel rhestr wirio sy'n ymdrin â'r holl feini prawf hanfodol. |
| Gofynion Bwydlen | Y safonau ar gyfer yr holl fwyd sy'n cael ei weini ym Mwyd a Hwyl |

| | |
|---|---|
| Polisi bwyd | Y polisi o ran bwydydd eraill sy'n cael eu darparu ar gyfer Bwyd a Hwyl gan ddarparwyr neu bartneriaid. |
| Canllawiau brandio | Canllawiau o ran brandio Bwyd a Hwyl ac awgrymiadau ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol. |
| Canllawiau Ffolder | Canllawiau ar gyfer creu ffolderi Bwyd a Hwyl. |

**Argymhellion**

| # | Argymhellion Cydlynydd y Cyngor | Argymhellion ar gyfer Cynlluniau |
|---|---|---|
| 1 | | Recriwtio plant a theuluoedd i Fwyd a Hwyl ymhell cyn gwyliau haf yr ysgol, gan dargedu Blwyddyn neu Gyfnod Allweddol penodol ac osgoi gor-dargedu plant a theuluoedd penodol. Os ydych chi'n ystyried sawl Cyfnod Allweddol, gallai hyn ychwanegu at gostau adnoddau a staffio. Sylwer nad yw'r cynllun wedi'i gyfyngu i blant sy'n gymwys ar gyfer PYD yn unig. Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu i ddiogelu hunaniaeth y disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. |
| 2 | Mapio 'darpariaethau gwyliau' lleol i rannu adnoddau o bosib ac osgoi dyblygu. Edrychwch ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich cyngor am wybodaeth ar weithgareddau hamdden plant a darpariaeth gofal plant. | |
| 3 | Dylid targedu ysgolion gyda chymhwysedd PYD (ar gyfer disgyblion 5 i 15 oed) o 16% neu fwy. Cyfrifoldeb y grŵp llywio lleol yw ymgysylltu ag | |

| | | |
|---|---|---|
| | ysgolion gyda'r angen mwyaf. Efallai y bydd angen i grwpiau llywio lleol dystiolaethu eu rhesymau dros ymgysylltu ag ysgolion heblaw'r rhai gyda'r % PYD uchaf. Bydd rhestr o'r ysgolion cymwys yn seiliedig ar wybodaeth o ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2022 a nifer yr ysgolion cymwys i bob awdurdod lleol yn cael ei ddarparu gan CLlLC. | |
| 4 | Rydym yn annog y cynlluniau i weithredu am gynifer o ddiwrnodau â phosibl dros wyliau'r haf. | |
| 5 | Gall y cydlynwyr ystyried cynnal digwyddiad partner Bwyd a Hwyl lleol er mwyn i asiantaethau partner gynnig eu gwasanaethau ac i Gydlynwyr Bwyd a Hwyl lunio eu hamserlenni. Mae potensial i awdurdodau lleol cyfagos drefnu digwyddiad ar y cyd y gall CLlLC ddarparu cymorth ar ei gyfer.<br>Cynnwys ystod eang o asiantaethau partner addas o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf hanfodol. | |
| 6 | Cefnogi cynlluniau gydag unrhyw faterion cludiant | Ystyriwch faterion cludiant i ac o'r ysgol sy'n rhan o'r rhaglen (e.e. bws mini, hebryngwyr croesfannau, 'bws cerdded' ar gyfer disgyblion sy'n byw yn lleol). |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Ystyriwch gynnig gweithgareddau ar wahân i rieni a brodyr a chwiorydd (e.e. sgiliau coginio, dosbarthiadau ymarfer corff, addysg oedolion) gan eu cyfeirio at gyfleoedd eraill yn lleol   Tystiolaeth o gysylltiadau gyda'r cwricwlwm ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru. | |
| 8 | Ymgysylltu â datblygiad ehangach Bwyd a Hwyl ar draws Cymru drwy fynychu cyfarfodydd 1 i 1, cyfarfodydd rhanbarthol a rhannu arferion gorau. | |
| 9 | Cefnogi cynlluniau / gweithgareddau eraill lle bo modd, i wneud y mwyaf o gyrhaeddiad y rhaglen. | |
| 10 | Cydymffurfiaeth Sgiliau Maetheg am Oes.  Pan fydd gan garfan un aelod o staff cymwys yn unig, dylid cynllunio sesiynau maeth fesul grŵp o ddim mwy na 20 o blant ar y tro, a sicrhau bod cynllun cefnogi yn ei le ar gyfer absenoldeb salwch.<br>Pan fydd cynlluniau'n wynebu trafferthion o ran darparu hyfforddwr Sgiliau Maetheg am Oes, gellir ystyried 'hyfforddwr symudol' ar draws y cynlluniau (lle bo modd) er mwyn hwyluso elfen hyfforddiant maetheg a chynnal uniondeb y rhaglen. | |

**Atodiad 2 – rolau a chyfrifoldebau a awgrymir**

Dylai Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth ddyledus i unrhyw anghyfartaledd rhwng cyfraddau tâl staff Bwyd a Hwyl.

| Rôl | Pwy? | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Arweinydd Rhaglen Bwyd a Hwyl y Cyngor | • Swyddog Addysg<br>• Rheolwr Arlwyo Addysg / Rheolwr Cynorthwyol<br>• Ymarferydd Rhwydwaith | • Rheoli cyfarfodydd Grŵp Llywio Lleol.<br>• Gweithredu fel y prif gyswllt rhwng CLILC, y Grwpiau Llywio Lleol ac ysgolion y rhaglen.<br>• Casglu a gwirio gwybodaeth ar gyfer Ffurflen Gais am Gyllid Bwyd a Hwyl 2023 (Adrannau 1 a 2), a Ffurflen i Gofnodi Costau Bwyd a Hwyl a'u cyflwyno i CLILC. |

| Rôl | Pwy? | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| | Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru<br>• Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd Lleol<br>• Cydlynydd Bwyd a Hwyl profiadol | • Casglu Amserlen o Weithgareddau, Bwydlen Cinio 12 Diwrnod a Ffurflenni Presenoldeb y cynlluniau a'u cyflwyno i CLILC.<br>• Cynnal gwerthusiad o bob cynllun. Darperir rhagor o wybodaeth gan CLILC.<br>• Gweithredu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd fel archwiliad ar gyfer pob cynllun a chyflwyno Crynodeb Archwiliad Fframwaith Sicrwydd Ansawdd i CLILC. |
| Unigolyn cyfrifol ar gyfer Bwyd a Hwyl ym mhob ysgol | • Pennaeth<br>• Aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth<br>• Cadeirydd y Llywodraethwyr<br>• Llywodraethwr | Mae enghraifft o Gytundeb Ysgol ar gael gan CLILC.<br>• Trefnu recriwtio Cydlynydd Bwyd a Hwyl yr Ysgol, Cynorthwywyr a staff diogelu (os yn berthnasol).<br>• Gwneud trefniadau llanw ar gyfer Cydlynydd Bwyd a Hwyl yr Ysgol (a'r Cymhorthydd os yn bosibl / os oes angen) er mwyn iddynt allu mynychu Hyfforddiant Sgiliau Maetheg am Oes (20 awr) a hyfforddiant perthnasol arall.<br>• Darparu canllawiau a monitro cynnydd Cydlynydd Bwyd a Hwyl yr Ysgol.<br>• Trefnu darpariaeth dyletswyddau gofalwr.<br>• Trefnu darpariaeth dyletswyddau glanhau (e.e. 1 awr ar ddiwedd bob diwrnod Bwyd a Hwyl).<br>• Trefnu dyletswyddau casglu gwastraff.<br>• Sicrhau bod trefniadau diogelu a chymorth cyntaf priodol yn eu lle.<br>• Bod ar gael fel cyswllt yn ystod y rhaglen. |
| Cydlynydd Bwyd a Hwyl yr Ysgol<br>(1 i bob ysgol) | • Athro/Athrawes<br>• Cymhorthydd Addysgu<br>• Staff cymwys eraill fel Gweithiwr Ieuenctid / Gweithiwr Chwarae / | Mae enghraifft o Swydd-ddisgrifiad ar gael gan CLILC.<br>• Datblygu, cydlynu a darparu Bwyd a Hwyl yn yr ysgol.<br>• Gweithio dan arweiniad y Pennaeth, ac o fewn system a gytunir o ran goruchwyliaeth, datblygu a gweithredu'r rhaglenni gwaith a gytunwyd gydag |

| Rôl | Pwy? | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| | Swyddog Cyswllt Ysgolion. | unigolion / grwpiau, yn yr ysgol a gydag asiantaethau partner.<br>• Sicrhau bod yr holl staff cefnogi a phartneriaid yn ymwybodol o 'ethos' Bwyd a Hwyl ac nad ydynt yn tanseilio'r ethos hwnnw.<br>• Creu amgylchedd hwyl, diogel ac sy'n meithrin plant i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn ymgysylltu.<br>• Cysylltu â gwasanaeth dieteteg y bwrdd iechyd lleol i ymgymryd â Hyfforddiant Sgiliau Maetheg am Oes a darparu Sesiynau Addysgu Maetheg Bwyd a Hwyl Cymru Gyfan.<br>• Ymgymryd â hyfforddiant perthnasol arall fel bo'r angen (e.e. diogelu, cymorth cyntaf, Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif).<br>• Adolygu addasrwydd yr asesiadau risg presennol ac asesiadau risg asiantaethau partner.  Ymgymryd ag asesiadau risg ychwanegol, fel bo'r angen.<br>• Adolygu gofynion ADY y plant sy'n cofrestru ar gyfer Bwyd a Hwyl a threfnu'r darpariaethau gofynnol.<br>• Llunio Ffolder Bwyd a Hwyl gan gynnwys copïau o bolisïau perthnasol a sicrhau bod Cymorthyddion Bwyd a Hwyl yr Ysgol yn deall y polisïau.<br>• Darparu gwybodaeth i Arweinydd Rhaglen Bwyd a Hwyl y Cyngor ar gyfer y Ffurflen Gais am Gyllid a Chofnod o Gostau Bwyd a Hwyl.<br>• Trefnu cwblhau Amserlen o Weithgareddau, Ffurflenni Presenoldeb a gwerthusiadau'r cynllun a'u cyflwyno i Arweinydd Rhaglen Bwyd a Hwyl y Cyngor. |
| Cymorthyddion Bwyd a Hwyl yr Ysgol (isafswm o 1 i bob 20 o blant, | • Cymorthyddion Addysgu<br>• Gwirfoddolwyr<br>• Staff yr Awdurdod Lleol | Mae enghraifft o Swydd-ddisgrifiad ar gael gan CLILC. |

| Rôl | Pwy? | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| yn dibynnu ar yr asesiad risg a gofynion ADY) | | • Gweithio dan oruchwyliaeth uniongyrchol y Cydlynydd Bwyd a Hwyl i ddarparu Bwyd a Hwyl yn yr ysgol.<br>• Cefnogi mynediad at weithgareddau ar gyfer disgyblion a darparu cefnogaeth gyffredinol i reoli disgyblion, gan gynnwys paratoi, a chynnal a chadw adnoddau / offer yn rheolaidd.<br>• Creu amgylchedd hwyl, diogel ac sy'n meithrin plant i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn ymgysylltu. |
| Gofalwr | • Gofalwr | • Agor a chau cyfleusterau'r ysgol ar yr amseroedd a gytunwyd. |
| Cogydd | • Cogydd | Mae enghraifft o Swydd-ddisgrifiad ar gael gan CLILC.<br>• Darparu brecwast a chinio yn dilyn Egwyddorion Bwydlen Bwyd a Hwyl |

## Atodiad C: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae: canllawiau awdurdod lleol 2023-2024

### Rhagair

Yng nghyllideb derfynol 2023-24, cymeradwywyd £1m ar gyfer y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae (menter llwgu yn ystod y gwyliau) i gefnogi mynediad at ragor o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn ystod y gwyliau ysgol, a darparu bwyd / byrbrydau iach.

Mae bwydo plant dros wyliau'r ysgol, pan nad yw clybiau brecwast a phrydau ysgol am ddim ar gael, yn gallu bod yn her i rai teuluoedd. Ni ddylai unrhyw blentyn orfod llwgu, ac i helpu i gefnogi'r teuluoedd hynny mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1 miliwn i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau drwy leoliadau gwaith chwarae yn 2023-24.

Mae chwarae yn elfen hanfodol yn natblygiad plant ac yn rhywbeth sy'n gallu bod yn ffactor amddiffynnol gref ym mywydau plant. Mae chwarae a darpariaeth chwarae wedi'i staffio yn effeithio'n gadarnhaol ar blant a theuluoedd sy'n profi tlodi. Gall chwarae warchod plant rhag agweddau negyddol tlodi, gan eu helpu i ddatblygu eu hadnoddau mewnol a meithrin gwydnwch.

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

1. Canllawiau anstatudol gan Lywodraeth Cymru yw'r rhain i gynorthwyo awdurdodau lleol i gynllunio eu dull o ddefnyddio eu dyraniad cyllid o'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.
2. Bydd rhagor o wybodaeth i ddilyn ar y mesurau monitro, adolygu a gwerthuso a fydd ar waith yn ystod cyfnod y cyllid grant.
3. Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y canllawiau hyn at: Gofalplantachwarae@llyw.cymru

### 1 Nodau

Prif nod y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae yw darparu gwell cyfleoedd chwarae i blant mewn cymunedau sy'n agored i niwed a gwireddu'r manteision a ddaw yn sgil hyn o ran datblygiad plant a lefelau gweithgaredd. Yn ogystal, mae'r rhaglen yn ceisio gwella canlyniadau i blant mewn perthynas â llwgu yn ystod y gwyliau drwy ategu'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf 'Bwyd a Hwyl'. Dylai hyn leihau'r pwysau ariannol ar rieni/gwarcheidwaid yn ystod gwyliau ysgol.

Mae darpariaeth chwarae a gwaith chwarae wedi'i staffio yn cael effaith gadarnhaol ar blant a theuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yn apelio at deuluoedd sy'n elwa ar systemau ataliol cynnar. Mae chwarae yn helpu plant i ddatblygu eu hadnoddau mewnol a meithrin gwytnwch yn wyneb anawsterau ac ansicrwydd yn eu cartref ac mewn rhannau eraill o'u bywydau. Felly, bydd y ffocws ar gyfer 2023-24 ar ddarpariaeth gwaith chwarae wedi'i

staffio a fydd yn parhau i helpu plant a phobl ifanc i adfer yn sgil canlyniadau pandemig y Coronafeirws ac yn hyrwyddo cyfleoedd chwarae.

Mae cyllid dangosol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26 wedi’i gytuno fel rhan o broses gyllideb Llywodraeth Cymru. Dylai awdurdodau lleol barhau i ailymgysylltu â'r sector gwaith chwarae lle mae'r cysylltiadau hyn wedi'u torri oherwydd diffyg cyllid. Dylai awdurdodau lleol hefyd geisio sicrhau/cynyddu’r ddarpariaeth o fwyd / byrbrydau iach mewn lleoliadau gwaith chwarae.

**Prif nodau’r prosiect**
Darparu cyfleoedd chwarae wedi'u cyfoethogi, sydd am ddim neu am bris o ddim mwy na £1 yn y man lle caiff ei ddefnyddio, a phrofiadau cadarnhaol megis:

- cymdeithasu
- bod yn egnïol
- cael hwyl / bod yn hapus
- dysgu rhywbeth newydd

Mae'r prosiect hefyd yn darparu manteision ychwanegol drwy gefnogi cynaliadwyedd lleoliadau gwaith chwarae a chefnogi rhieni, teuluoedd a chymunedau.

Helpu i leihau llwgu yn ystod y gwyliau drwy ddarparu bwyd / byrbrydau er mwyn:

- annog bwyta’n iachach
- lleihau’r pwysau ariannol ar rieni / gofalwyr

## 2 Y dull disgwyliedig o ddefnyddio'r cyllid

Dylai awdurdodau lleol gynllunio eu dull yn seiliedig ar y gwasanaethau gwaith chwarae wedi'i staffio sydd ar gael iddynt fel y nodwyd yn eu Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae. Mae hyn er mwyn ystyried y dirwedd wahanol ar gyfer chwarae ledled Cymru a chefnogi ailsefydlu neu sefydlu darpariaeth gwaith chwarae newydd lle nad yw ar gael ar hyn o bryd a lle nad yw'n cael effaith negyddol ar waith chwarae, gofal plant neu ddarpariaeth debyg arall.

Rhaid llenwi ffurflen gynnig ar Smart Survey (i ddilyn) un wythnos cyn pob cyfnod gwyliau. E-bostiwch Gofalplantachwarae@llyw.cymru i roi gwybod i'r tîm Polisi Chwarae eich bod wedi llenwi ffurflen gynnig.

**Dull wedi'i flaenoriaethu o ddyrannu Cyllid Gwyliau Gwaith Chwarae 2023-24**

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | • Ymestyn oriau neu ddyddiau'r ddarpariaeth gwaith chwarae bresennol |

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 2 | Dylai awdurdodau lleol edrych ar y bylchau yn y ddarpariaeth chwarae mewn ardaloedd lle mae angen, a lle nodir bylchau, gallant ddefnyddio cyllid i gefnogi’r canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Ailsefydlu lleoliadau gwaith chwarae sydd wedi dod i ben oherwydd prinder cyllid neu ehangu lleoliadau presennol (dull a ffefrir) neu<br>• Sefydlu gwasanaethau gwaith chwarae newydd. Yn yr achos hwn, rhaid i awdurdodau lleol ddangos nad yw darpariaeth newydd yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth gofrestredig bresennol na'r Rhaglen Gwella’r Gwyliau Haf.<br>• Os oes angen darpariaeth newydd, gellir defnyddio cyllid ar gyfer yr holl gostau sefydlu a rhedeg, er enghraifft yswiriant, cyfarpar, cynnal a chadw, staff, hyfforddiant, rheoli a gweinyddu. |

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 3 | • Ychwanegu bwyd at ddarpariaeth gymunedol, chwarae mynediad agored neu ofal plant y tu allan i'r ysgol sydd eisoes yn bodoli, gan mai dyma lle gellir ychwanegu gwerth am y gost isaf. Rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau y darperir bwyd / byrbrydau iach mewn rhywfaint o’r ddarpariaeth.<br><br>Gellir defnyddio’r cyllid fel a ganlyn:<br><br>• Ariannu bwyd, byrbrydau iach a diodydd (nid oes rhaid iddynt fod yn brydau poeth), yn unol â’r canllawiau ar fwyd a maeth yn Atodiad A)<br>• Os oes grwpiau cymunedol yn darparu bwyd am ddim ar gyfer gweithgareddau Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae, gallwch roi cyllid iddynt i wella ansawdd a maeth y bwyd.<br>• Talu costau prynu'r cyfarpar angenrheidiol i ddarparu bwyd, fel oergell, blychau oeri, platiau, cyllyll a ffyrc, poteli dŵr y gellir eu hailddefnyddio ac ati.<br>• Talu costau staff i helpu i ddarparu bwyd fel nad yw’r ddarpariaeth yn tynnu oddi ar y cyfleoedd chwarae.<br>• Gwella sgiliau staff presennol o ran darparu bwyd, er enghraifft hyfforddiant ar hylendid bwyd neu fwyta’n iach.<br><br>Noder: Gellir darparu prydau bwyd hefyd drwy'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol.<br><br>NODER: Rhaid i'r bwyd gael ei gynnig i bawb sy'n cymryd rhan, nid y rhai sy'n agored i niwed yn unig, er mwyn osgoi unrhyw stigma.<br><br>Pwyntiau i'w hystyried wrth sicrhau bod bwyd ar gael<br><br>• Rhaid i’r bwyd gael ei ddarparu gan ddarparwr bwyd sydd wedi'i gofrestru gyda'i awdurdod lleol ac sydd â thystysgrifau Hylendid Bwyd perthnasol, neu rhaid i ddarparwyr feddu ar dystysgrifau o'r fath eu hunain.<br>• Rhaid i ddarparwyr gael caniatâd i ddarparu bwyd i blant, yn ddelfrydol, fel rhan o'u proses gofrestru. Rhaid i'r caniatâd hwn gynnwys gwybodaeth am unrhyw risgiau alergedd a chynlluniau |

| | |
|---|---|
| | ar gyfer triniaeth. Rhaid cynnal asesiadau risg yn ymwneud â darparu bwyd. |

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 4 | • Ystyried ariannu ychwanegu bwyd at leoliadau ieuenctid sydd â staff gwaith chwarae hyfforddedig ac yn darparu cyfleoedd chwarae cyfoethog.<br>• Ni ellir defnyddio'r cyllid hwn i ariannu darpariaeth ieuenctid.<br>• Mae'r dull hwn yn cefnogi cost-effeithiolrwydd ariannu bwyd yn unig ac yn cefnogi'r datblygiad o waith chwarae i waith ieuenctid wrth i blant dyfu i fyny. |

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 5 | Ystyried ariannu lleoedd mewn lleoliadau gofal plant neu leoliadau y tu allan i'r ysgol ar gyfer plant sydd mewn perygl o lwgu yn ystod y gwyliau pan nad oes darpariaeth arall yn bodoli, neu lle bydd manteision ychwanegol gofal plant a chwarae yn cael effaith sylweddol ar y plentyn. |

**Beth arall y gellir ei ariannu?**

- Hyd at 10% o gostau gweinyddol
- Amser staff – gall hyn fod yn gyllid ar gyfer swydd sefydlog neu secondiad / swydd rhan amser. Gellir hawlio cyllid o 1 Ebrill 20t22 tan 31 Mawrth 2023 er mwyn gallu ymgysylltu â darpariaeth gwaith chwarae a chwblhau hawliadau. Rhaid darparu disgrifiadau swyddi neu dasgau allweddol wedi'u rhestru fel tystiolaeth ategol
- Pecynnau chwarae pwrpasol i deuluoedd â phlant sy'n agored i niwed.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Os bydd gan awdurdodau lleol unrhyw gwestiynau ynghylch yr hyn y gellir ei ariannu, dylid anfon e-bost at Gofalplantachwarae@llyw.cymru.

Dylid hawlio'r holl gostau sy'n gysylltiedig â darpariaeth, er enghraifft costau teithio, costau glanhau neu gostau a ysgwyddir er mwyn cydymffurfio ag asesiadau risg, o'r cyllid hwn.

**Beth na ellir ei ariannu?**

- Ni ddylid defnyddio'r cyllid ar gyfer bwyd sothach, losin a danteithion afiach, fel rhan o brydau bwyd neu fyrbrydau nac fel rhan o weithgareddau (er enghraifft fel gwobrau ar gyfer gemau).
- Ni ddylid defnyddio'r cyllid i ariannu gofal plant na lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i oriau ysgol oni bai bod y plant yn agored i niwed, neu'n bodloni'r gofynion a nodir ym Mlaenoriaeth 5.

## 3 Y lleoliadau sy'n gymwys

3.1 Dim ond lleoliadau gwaith chwarae wedi'u staffio y gellir eu hariannu drwy'r rhaglen hon.

3.2 Nid oes rhaid i leoliadau fod wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i fod yn gymwys i gael cyllid, ond os nad ydynt wedi'u cofrestru rhaid iddynt sicrhau a dangos eu bod yn gweithredu o fewn gofynion Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010[25] (fel y'i diwygiwyd). Rhaid i ddarpariaeth gwaith chwarae mynediad agored hefyd gadarnhau ei bod yn dilyn egwyddorion Yr Hawl Cyntaf; fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae[26]. Mae'r rhain yn galluogi gweithwyr chwarae, ac unrhyw oedolion eraill sydd â diddordeb mewn chwarae plant, i ddadansoddi, drwy arsylwi a myfyrio, yr amgylcheddau chwarae y maent yn eu gweithredu. Mae'n rhoi fframwaith i asesu ansawdd yr hyn sy'n cael ei ddarparu a'r profiadau a gynigir.

3.3 Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio yn y lleoliad gael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.4 Rhaid bod gan bob lleoliad bolisi diogelu a rhaid bod staff allweddol wedi derbyn hyfforddiant priodol.

3.5 Mae angen asesiadau risg-budd sy'n ymwneud â darpariaeth gwaith chwarae. Mae templed ar gyfer asesiadau risg-budd ar gael i'r rhai nad oes ganddynt system ar waith eisoes.

## 4 Meini prawf y cyllid

4.1 Ni ddylai'r cyllid arwain at stigmateiddio plant. Dylid targedu darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored mewn cymunedau sy'n agored i niwed a lle y gwyddys bod plant sy'n agored i niwed yn byw. Bydd pob plentyn yn y gymuned yn gallu mynychu ond gall gweithwyr proffesiynol dargedu unigolion y gwyddus eu bod yn fregus i annog y rhai mwyaf anghenus i fynychu.

4.2 Lle mae plant yn cael eu hariannu i fynd i leoliadau y codir tâl amdanynt, ni ddylid gwneud plant eraill a rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o'u statws cyllido.

4.3 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw fentrau a ariennir yn cyd-fynd â'u cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2023-24. Rhaid iddynt ymgynghori â chydweithwyr yn eu hawdurdod lleol fel rhan o'u gwaith cynllunio, er mwyn sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ategol ac nad yw'n cael effaith negyddol anfwriadol ar feysydd gwaith cysylltiedig eraill, yn arbennig

- Gofal Plant
- Addysg ynghylch Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP). Fodd bynnag, dim ond yn ystod misoedd yr haf y mae SHEP yn gweithredu.
- Y rhai sy'n ymwneud â mentrau tlodi plant

[25] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/2839/article/15/made
[26] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/hawlcyntaf

## 5 Cwmpas

5.1 Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer yr holl wyliau ysgol yn y flwyddyn ariannol 2023-24 fel sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol:

- Pasg 2023
- Hanner tymor Sulgwyn 2023
- Haf 2023
- Hanner tymor mis Hydref 2023
- Gwyliau'r Nadolig 2023
- Hanner tymor mis Chwefror 2024
- Gellir defnyddio'r cyllid hefyd ar gyfer darpariaeth ar benwythnosau, os oes angen

5.2 Gellir defnyddio cyllid ar gyfer lleoliadau sy'n darparu ar gyfer plant rhwng 0 a 17 oed (hyd at 25 oed ar gyfer plant anabl) gyda ffocws ar blant oedran ysgol.

5.3 Gofynnir i awdurdodau lleol ystyried defnyddio'r cyllid mewn perthynas â Mater B - darparu ar gyfer anghenion amrywiol:

- Plant ar draws yr ystod oedran a nodir yn 5.2
- Plant anabl a’r rhai ag anghenion ychwanegol
- Plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt neu blant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Ffactorau diwylliannol eraill a gofnodwyd, gan gynnwys ieithoedd eraill a phlant Sipsiwn a Theithwyr

## 6 Pecyn cyfryngau

6.1 Dylai'r holl asedau creadigol a ddatblygir i hyrwyddo eich gweithgareddau gadw at Safonau'r Gymraeg: canllawiau cyfathrebu a marchnata a chael eu brandio fel rhai'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae. Bydd pecyn cyfryngau yn cael ei ddosbarthu i arweinwyr cyfathrebu pob awdurdod lleol i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae. Bydd yr holl ddogfennau ar gael i chi a'ch tîm cyfathrebu drwy Objective Connect.

## 7 Sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu a'i drosglwyddo

7.1 Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru a'i gyfrifo gan ddefnyddio swm y tri phrif Asesiad Ysgol wedi'i Seilio ar Ddangosyddion o fformiwla cyllido'r setliad llywodraeth leol. Bwriad y fformiwla yw adlewyrchu amrywiadau yn yr angen i wario y gellid eu disgwyl pe bai pob awdurdod yn ymateb mewn ffordd debyg i'r galw am wasanaethau yn eu hardal. Dyma'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau unedol a heddluoedd. Fe'i defnyddiwyd hefyd gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu grantiau eraill. Mae gan awdurdodau lleol brofiad o gyllid yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio'r dull hwn ac maent yn ymwneud â'r broses o ddatblygu'r fformiwla.

7.2 Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio darpariaeth a gwybodaeth leol i ddyrannu'r cyllid i leoliadau neu sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rhaglen. Argymhellir y dull hwn gan fod gwybodaeth leol am ddarpariaeth a meysydd o angen yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen hon. Gan fod darpariaeth gwaith chwarae wedi'i

strwythuro a'i ddarparu'n wahanol ar draws awdurdodau lleol, mae hyn yn caniatáu iddynt ddefnyddio'r cyllid yn y ffordd fwyaf priodol.

7.3 Bydd y cyllid yn cael ei ddosbarthu drwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan.

7.4 Disgwylir i awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o'r cyllid a ddyrennir er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant. Dylai awdurdodau lleol sy'n teimlo na allant wario eu dyraniad llawn drafod hyn gyda thîm Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl fel y gellir dod o hyd i atebion posibl.

## 8 Ardaloedd o angen a phlant mewn perygl

8.1 Dylai'r cyllid hwn ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae plant mewn mwy o berygl o fod yn agored i niwed.

8.2 Bydd gan awdurdodau lleol wybodaeth leol am yr ardaloedd hyn ond nod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) oedd nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd â'r amddifadedd mwyaf. Yr ardaloedd daearyddol a ddefnyddir i gyfrifo MALIC yw'r 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Poblogaeth gyfartalog Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yw 1,600. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu cyllid yn hygyrch i'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is â'r amddifadedd mwyaf o ran incwm yn eu hardal.

## 9 Monitro, adolygu a gwerthuso

9.1 Drwy dderbyn cyllid, mae awdurdodau lleol yn ymrwymo i ddarparu data a gwybodaeth i fonitro'r effaith a llywio gwerthusiad y rhaglen hon. Mae gwerthuso'n allweddol i fesur effeithiolrwydd y rhaglen a llywio unrhyw raglenni o'r math hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid i'r gwerthuso fod yn gymesur ac ni ddylai dynnu sylw oddi wrth y cyfleoedd chwarae cyfoethog sy'n cael eu darparu fel rhan o'r rhaglen.

9.2 Bydd gwybodaeth am fonitro a gwerthuso i ddilyn.